Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

AMODAU CONTRACT AR GYFER AROLYGU YSGOLION YNG NGHYMRU O DAN ADRAN 28 DEDDF AROLYGU YSGOLION 2005

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Fersiwn 10

Dyddiad: Ebrill 2008

AMODAU CONTRACT

AR GYFER AROLYGU YSGOLION YNG NGHYMRU

Gellir amrywio'r Amodau hyn gyda chytundeb ysgrifenedig Estyn yn unig. Ni fydd unrhyw delerau neu amodau a gynigir ar unrhyw adeg gan y Contractiwr yn ffurfio unrhyw ran o'r Contract.

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Contract hwn, y fersiwn Saesneg fydd yn cael blaenoriaeth.

TABL CYNNWYS

1.	Amodau	1
2.	Diffiniadau	1
3.	Cyfnod y Contract	5
4.	Amrywio'r Gwasanaethau	6
5.	Natur y Gwasanaethau	6
6.	Y Tîm Arolygu	8
7.	Gwrthdaro Buddiannau	11
8.	Gwahaniaethu	11
9.	Statws y Contractiwr	12
10.	Diogeledd ac Iechyd a Diogelwch	12
11.	Trosglwyddo ac Is-osod	13
12.	Amrywio'r Tîm Arolygu	14
13.	Sicrhau Ansawdd a Threfniadau Archwilio	15
14.	Adroddiadau	16
15.	Cwynion	21
16.	Taliad	23
17.	Treth ar Werth	24
18.	Oedi o ran Cyhoeddi	24

19. Rhoddion Llwgr a Thaliadau Comisiwn 25

20. Cyflafareddu 26

21. Perchenogaeth Gwybodaeth 26

22. Indemniad ac Yswiriant 30

23. Damwain neu Anaf i'r Contractiwr a'i Gyflogeion 31

24. Terfyniad 31

25. Adennill Symiau sy'n Ddyledus 33

26. Rhwymedïau 33

27. Hysbysiadau 33

28. Toradwyedd 34

29. Gorfodaeth gan Drydydd Parti 34

30. Cyfraith a Rheoliadau 34

1. AMODAU

1.1 Mae gofyniad llawn Estyn ar gyfer y contract i arolygu ysgolion wedi'i gynnwys yn y dogfennau a restrir isod:

(a) Deddf Addysg 2005 ("Deddf 2005") a Rheoliadau a wnaed o dan y Deddfau;

(b) Gwahoddiad i Dendro, gan gynnwys:

- Tystysgrif Anghydgynllwynio;
- Tystysgrif Dendro;
- Manyleb: manylion ysgol a meini prawf arolygu;
- Ymateb Cymhwyster; ac
- Ymateb Masnachol

(c) Amodau Contract;

(ch) y Fframwaith Arolygu Cyffredin;

(d) cyfryw lawlyfrau Estyn "Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Cynradd a Meithrin"; "Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Uwchradd"; ac "Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Cynradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion" fel sy'n gyfredol adeg yr Arolygiad ("Llawlyfrau Arweiniad");

(dd) arweiniad atodol, polisïau arolygu a pholisïau a chyhoeddiadau perthnasol eraill gan Estyn, y gellir eu diwygio neu'u cyflwyno o dro i dro;

(e) y Cynllun Iaith Gymraeg a'r arweiniad ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg;

(f) y Datganiad Ariannol; a'r

(ff) Datganiad Ansawdd. Bydd hi'n ofynnol i Gontractwyr gwblhau'r ddogfen bob blwyddyn. Mae Estyn yn cadw'r hawl hefyd i newid fformat a sylfaen y gofynion datganiad yn flynyddol neu'n amlach fel y pennir gan Estyn.

2. DIFFINIADAU

2.1 Yn y Contract, bydd yr ystyron a ganlyn gan yr ymadroddion canlynol:

"AALl"	yw awdurdod addysg lleol.
"Adroddiad"	yw'r ddogfen ar ffurf ddrafft neu ffurf derfynol fel a ddisgrifir yn Adran 33 Deddf 2005.
"Adroddiad Cryno"	yw'r crynodeb o'r Adroddiad fel a ddisgrifir yn Adran 33 Deddf 2005.
"AEM"	yw Arolygwyr Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng

	Nghymru.
“Amod”	yw unrhyw gymal neu baragraff y cyfeirir atynt yn y Contract hwn.
“Amodau Contract”	yw’r telerau a’r amodau a nodir yn y Contract hwn neu fel y’u diwygir yn ysgrifenedig o dro i dro.
“Arolygiad”	yw’r arolygiad o Sefydliad fel sy’n ofynnol gan y Fframwaith Arolygu Cyffredin i’w gynnal gan y Contractiwr, sy’n ymgorffori’r holl weithgareddau craidd a chysylltiedig hynny cyn, yn ystod ac ar ôl ymweld â’r Sefydliad ei hun.
“Arolygiad Craidd”	yw’r rhan o’r arolygiad sy’n cynnwys yr arolygiad gwirioneddol o’r Sefydliad.
“Arolygydd”	yw’r Arolygydd Cofrestredig, yr Arolygydd Lleyg a’r Arolygydd Tîm.
“Arolygydd Cofrestredig”	yw person sydd ar y gofrestr sy’n bodloni gofynion Adran 25 Deddf 2005 ac yn ymddangos ar y Rhestr Gofrestredig.
“Arolygydd Lleyg”	yw person ar y Rhestr Gofrestredig sy’n cyflawni gofynion paragraff 3(2) Atodlen 4 Deddf 2005.
“Arolygydd Tîm”	yw unrhyw aelod o’r Tîm Arolygu a ddiffinnir yn Atodlen 4 Deddf 2005 ac ar y Rhestr Gofrestredig, nad yw’n Arolygydd Cofrestredig, yn Arolygydd Lleyg nac yn Asesydd Cymheiriaid.
“arweiniad”	yw unrhyw arweiniad atodol cysylltiedig y gellir ei gyhoeddi gan Estyn o dro i dro.
“Arweiniad Cwynion”	yw’r fersiwn ddiweddaraf o ddogfen Estyn o’r enw “Arweiniad ar gyfer contractwyr arolygiadau ysgolion ar ddelio â chwynion” a gyhoeddir o dro i dro gan Estyn i’r Contractiwr;
“Asesydd Cymheiriaid”	yw’r person sy’n cyflawni rôl asesydd cymheiriaid fel a ddisgrifir yn y Llawlyfrau Arweiniad.
“Awdurdod Penodi Penodol”	mae ganddo’r un ystyr a roddir yn Adran 43 Deddf 2005
“Awdurdod Priodol”	mae ganddo’r un ystyr a roddir yn Adran 43 Deddf 2005, fel y’i diwygiwyd.
y “Cod Gwybodaeth”	gweler yr ystyr yn Amod 21.13 isod.
“Cod Ymarfer Talu Gwell”	yw’r ddogfen â’r teitl hwnnw a fabwysiadwyd gan y Grŵp Ymarfer Talu Gwell sydd ar gael yn www.payontime.co.uk, sy’n gyfredol pan gynhelir yr Arolygiad.
“Contract”	yw’r Contract rhwng Estyn a’r Contractiwr sy’n cynnwys yr Amodau Contract hyn, gan gynnwys yr holl ddogfennau a restrir yn Amod 1.1 ac unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y Dystysgrif Dendro a gynhwysir gyda’r Gwahoddiad i Dendro.
“Contractiwr”	yw unrhyw endid cyfreithiol a enwir yn y Contract i ddarparu’r Gwasanaethau a chyflawni’r holl rwymedigaethau eraill fel sy’n ofynnol yn ôl y Contract a bydd yn cynnwys unrhyw berson arall y rhoddir gofynion a buddion y Contract iddo gan y Contractiwr gyda chaniatâd ysgrifenedig Estyn.
“Cost yr Arolygiad”	yw’r swm (gan gynnwys TAW) a enwir yn y Contract i ddarparu’r Gwasanaethau fel sy’n ofynnol gan y Contract.

“Cwyn”	yw unrhyw feirniadaeth neu sylw(adau) croes a godir mewn perthynas â’r Arolygiad a/neu’r Tîm Arolygu naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl yr Arolygiad Craidd.
“Cyfarfod Rhieni”	yw’r cyfarfod fel a ddisgrifir yn y Llawlyfrau Arweiniad.
“Cynllun Iaith Gymraeg”	yw’r fersiwn gyfredol adeg yr Arolygiad o’r ddogfen â’r teitl hwnnw y gellir ei gweld ar Wefan Estyn.
“Data”	yw’r data sy’n syrthio dan ddiffiniad data personol yn y Ddeddf Diogelu Data (DDD) sy’n cael ei brosesu yn y dull prosesu a ddiffinnir yn y DDD yn ystod cyfnod darparu’r gwasanaethau.
“Datganiad Ansawdd”	yw’r ddogfen â’r teitl hwnnw a gyflwynir gan y Contractiwr mewn cysylltiad â thendro am y Contract hwn, fel y gellir ei ddisodli o dro i dro gan ddogfen ddilynol â’r teitl hwnnw fel y gallai’r Contractiwr ei chwblhau yn unol ag Amod 1.1(i).
“Datganiad Ariannol”	yw’r ddogfen â’r teitl hwn a gyflwynir gan y Contractiwr mewn cysylltiad â thendro ar gyfer y Contract hwn.
“DDD”	yw Deddf Diogelu Data 1998.
“Deddf 2005”	gweler yr ystyr yn Amod 1.1(a) uchod.
“Deddf Cyflafareddu”	yw Deddf Cyflafareddu 1996.
“Deddf Rhyddid Gwybodaeth”	yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth, 2000.
“Deddfwriaeth”	yw unrhyw Ddeddf Seneddol neu is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr adran 21(1) Deddf Ddehongli 1978, unrhyw achos o arfer Uchelfraint y Goron, ac unrhyw hawl gymunedol orfodadwy o fewn ystyr adran 2 Deddf Cymunedau Ewrop 1972, ym mhob achos yn y Deyrnas Unedig.
“Diwrnod Gwaith”	yw unrhyw ddiwrnod heblaw am ddydd Sadwrn, dydd Sul neu Ŵyl Banc.
“Diwrnod Ysgol”	yw unrhyw ddiwrnod sy’n rhan o Wythnos Ysgol.
“Dogfen”	yw unrhyw lythyr, ffurflen, adroddiad, set data neu gasgliad arall o wybodaeth ysgrifenedig neu ddarluniol mewn unrhyw gyfrwng a ddefnyddir mewn cysylltiad â’r Contract hwn.
“Dogfen Arolygiad”	yw unrhyw ddogfen sydd i’w chynhyrchu neu’i chael mewn cysylltiad ag unrhyw Arolygiad dan y contract hwn, p’un a’i cyflwynwyd i Estyn neu beidio.
“Dyddiad Cwblhau’r Contract”	gweler yr ystyr yn Amod 3.3 isod.
“Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad”	yw’r diwrnod cyntaf y bydd y Tîm Arolygu yn mynd i’r Sefydliad ar gyfer Arolygiad Craidd o’r Sefydliad.
“Enwebai”	yw’r person sy’n cyflawni’r rôl fel a ddisgrifir yn y Llawlyfrau Arweiniad.
“Estyn”	yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
“Fframwaith Arolygu Cyffredin”	yw’r fersiwn o’r ddogfen o’r enw “dogfen y Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru” sy’n gyfredol ar ddyddiad yr Arolygiad Craidd sy’n ymwneud â

	darparu'r Gwasanaethau (atodwyd copi ohono wrth y Contract) ac sydd ar y Wefan.
"Gwahoddiad i Dendro"	yw'r gwahoddiad i dendro sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau a gyflwynir gan Estyn y mae'r Contractiwr wedi tendro'n llwyddiannus ar eu cyfer ac sy'n cynnwys y materion a nodwyd yn Amod 1.1(b) uchod.
"Gwasanaethau"	yw'r Arolygiad a'r Adroddiadau a nodir yn Neddf 2005, ac fel a ddynodir yn y Contract a, lle mae'r cyd-destun yn caniatáu hynny, mae'n cynnwys unrhyw ddeunyddiau ychwanegol ac erthyglau sydd i'w cyflwyno drwy hynny a ddarperir gan y Contractiwr yn unol â'r Contract mewn cysylltiad â'r Arolygiad a/neu Adroddiadau.
"Gwefan"	Gwefan Estyn, yn www.estyn.gov.uk.
"Gweithdrefn Gŵynion"	yw'r fersiwn ddiweddaraf o ddogfen Estyn o'r enw "Adborth a Chwynion" a gyhoeddir ar y Wefan o dro i dro;
"Llawlyfrau Arweiniad"	gweler yr ystyr a nodir yn Amod 1.1(e) uchod.
"Manyleb"	yw'r Fanyleb ar gyfer Arolygu Sefydliadau dan Ddeddf 2005 a gynhwysir â'r Gwahoddiad i Dendro.
"PAEM"	yw Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
"Parti"	yw naill ai Estyn neu'r Contractiwr, a bydd "Partïon" yn cael eu dehongli'n unol â hynny.
"Pris y Contract"	yw'r pris (heb gynnwys TAW) sy'n daladwy i'r Contractiwr gan Estyn o dan y Contract i'r Contractiwr gyflawni ei ran ef o'r Contract yn llawn ac yn gywir, yn unol â'r Gwahoddiad i Dendro. Defnyddir "Pris y Contract" yn y broses arfarnu a dyfarnu tendr.
"Prosesydd Data"	gweler y diffiniad yn y DDD.
"Rheoliadau"	yw'r Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) Offeryn Statudol Cymru 2006, Rhif 1714 (C 176).
"Rheolydd Data"	gweler y diffiniad yn y DDD.
"Rhestr Gofrestredig"	yw'r rhestr o Arolygwyr fel y'u disgrifir ym mharagraff 3 (1), Atodlen 4 Deddf 2005.
"Rhestr o'r Tîm"	yw'r rhestr â'r teitl hwnnw (neu wybodaeth debyg mewn ffurf y gall Estyn ofyn amdano) a gyflwynir gan y Contractiwr mewn perthynas ag unrhyw Arolygiad.
"Sefydliad"	yw'r ysgol berthnasol neu sefydliad arall a fydd yn cael ei arolygu yn amodol ar y Contract.
"Tendr"	yw'r cyflwyniad tendr electronig a gaiff Estyn gan y Contractiwr (trwy'r wefan e-dendro) mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau.
"Tîm Arolygu"	yw'r Arolygydd Cofrestredig ac Arolygwyr Eraill (Arolygydd (Arolygwyr) Lleyg, Arolygydd (Arolygwyr) Cofrestredig ac Arolygydd(Arolygwyr) Tîm ac Asesydd(Aseswyr) Cymheiriaid (os ar gael) sy'n rhan o'r Contract hwn ac mae'n cynnwys unrhyw ychwanegiadau neu amnewidiadau a gymeradwywyd

	iddo.
“Tymor yr Arolygiad”	yw’r tymor ysgol/tymor y Sefydliad lle mae’r Contractiwr yn bwriadu i’r Arolygiad Craidd ddigwydd, fel a hysbyswyd i Estyn.
“Tystysgrif Anghydgynllwynio”	yw’r ddogfen electronig â’r teitl hwnnw sy’n rhan o’r Gwahoddiad i Dendro.
“Tystysgrif Dendro”	yw’r ddogfen â’r teitl hwnnw sy’n ffurfio rhan o’r Gwahoddiad i Dendro.
“Wythnos Ysgol”	yw unrhyw wythnos neu ran o wythnos lle addysgir yn y Sefydliad.
“Ymateb Cymhwyster”	yw’r ddogfen electronig â’r teitl hwnnw sy’n ffurfio rhan o’r Gwahoddiad i Dendro.
“Ymateb Masnachol”	yw’r ddogfen electronig â’r teitl hwnnw sy’n ffurfio rhan o’r Gwahoddiad i Dendro.

2.2 Yn y Contract:

(a) dehonglir geiriau sy’n datgan un rhyw fel geiriau sy’n datgan y rhyw arall, a bydd cyfeiriadau at bersonau yn cynnwys cyrff corfforaethol, partneriaethau, cymdeithasau nad ydynt yn gorfforaethol, ymddiriedolaethau a chyrff statudol, llywodraeth leol, lled-gyhoeddus a chyrff nad ydynt yn rhai llywodraethol;

(b) mae’r unigol yn cynnwys y lluosog, ac fel arall;

(c) dehonglir unrhyw gyfeiriad at Ddeddf Seneddol neu is-ddeddfwriaeth fel datgan cyfeiriad iddo fel addasiad, ychwanegiad neu ymestyniad, neu fel y mae wedi’i ddisodli gan unrhyw Ddeddf Seneddol neu is-ddeddfwriaeth ddilynol neu fel y mae wedi’i gynnwys mewn ailddeddfiad dilynol, ac i bob offeryn, rheoliad, is-ddeddf a chynllun statudol a wneir neu a gyhoeddir drwy hynny neu’n deillio dilysrwydd ohono;

(ch) bydd yr ymadroddion “cynnwys”, “mae’n cynnwys”, “gan gynnwys” ac “wedi’i gynnwys / wedi’u cynnwys” yn cael eu datgan heb gyfyngiad oni bai eu bod yn anghyson â’r cyd-destun.

2.3 Bydd unrhyw hysbysiad a roddir gan Estyn dan y Contract hwn yn ddilys os caiff ei gyhoeddi gan Gangen Contractau Estyn yn unig neu gorff neu berson awdurdodedig arall y gall Swyddog Arwain Estyn: Contractau hysbysu’r Contractiwr ohonynt yn ysgrifenedig o dro i dro.

3 CYFNOD Y CONTRACT

3.1 Bydd y Contractiwr yn dechrau darparu’r Gwasanaeth a ddiffinnir yn y Fanyleb ar ddyddiad derbyn y Tendr gan Estyn a bydd yn gorffen pan fydd Estyn yn talu’n llawn am y Gwasanaethau, yn amodol ar Amod 24 mewn perthynas â therfynu’r Contract.

3.2 Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad fydd yr un y cytunwyd arno rhwng y Contractiwr a'r Awdurdod Priodol o fewn 20 (ugain) Diwrnod Gwaith o roi enw'r Sefydliad i'r Contractiwr. Bydd y Contractiwr hefyd yn hysbysu Estyn yn ysgrifenedig am fanylion am Ddyddiad Cychwyn yr Arolygiad, ar ôl cytuno gyda'r Awdurdod Priodol. Os digwydd i'r Contractiwr a'r Awdurdod Priodol fethu cytuno ar Ddyddiad Cychwyn yr Arolygiad, bydd Estyn yn gwahodd tystiolaeth gan y ddau barti ac yna'n pennu Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad.

3.3 Ni fydd dyddiad cwblhau'r Contract yn hwyrach na 2 (dau) Ddiwrnod Gwaith ar ôl y cyfnod priodol a nodir yn Rheoliad 9(2) o'r Rheoliadau ar gyfer paratoi i ysgrifennu'r Adroddiad a'r Adroddiad Cryno, pan fydd cyfnod yr Arolygiad Craidd yn dod i ben bythefnos ar ôl Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad ("Dyddiad Cwblhau'r Contract").

3.4 Ni fydd cwblhau'r Contract yn unol ag Amod 3.3 yn gwneud iawn am unrhyw rwymedigaethau neu hawliau a gynhwysir mewn unrhyw amod yn y Contract sy'n gallu parhau ar ôl cwblhau, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i amodau 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 26, 27, 28, 29 a 30, a fydd yn parhau mewn grym llawn ac ag effaith lawn.

4 AMRYWIO'R GWASANAETHAU

4.1 Mae Estyn yn cadw'r hawl trwy hysbysu'r Contractiwr i newid gofynion y Gwasanaethau neu unrhyw rwymedigaeth arall y Contractiwr yn unol â'r Contract. Bydd y Partïon yn cytuno ar unrhyw newid i Bris y Contract neu Ddyddiad Cwblhau'r Contract sy'n digwydd oherwydd newid o'r fath. Os methir cytuno, caiff y mater ei ddatrys trwy gyflafareddu yn unol ag Amod 20 isod.

5 NATUR Y GWASANAETHAU

5.1 Tybir bod y Contractiwr, cyn tendro, wedi ei fodloni ei hun ynghylch cywirdeb a digonolrwydd Pris y Contract a fydd yn cynnwys ei holl rwymedigaethau dan y Contract.

5.2 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod yr Arolygiad a'r Adroddiad yn cael eu cynnal a'u cwblhau yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad perthnasol sydd mewn grym ar adeg yr arolygiad. Yn benodol, tynnir sylw at ddarpariaethau Deddf 2005, sy'n rheoli'r broses o adrodd ar sefydliadau lle mae barn yr Arolygydd Cofrestredig fel a ganlyn:

(a) mae angen mesurau arbennig ar y sefydliad oherwydd ei bod yn methu neu'n debygol o fethu rhoi safon dderbyniol o addysg i'w disgyblion;

(b) nid yw'r sefydliad yn perfformio cystal o gryn dipyn nag y gallai o dan yr holl amgylchiadau y mae'n rhesymol disgwyl iddo berfformio, ac mae angen ei wella'n sylweddol;

(c) mae angen gwella chweched dosbarth y sefydliad yn sylweddol.

5.3 Bydd y Contractiwr yn cynnal y Gwasanaethau a holl rwymedigaethau eraill y Contractiwr yn fanwl unol â'r Contract ac yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau neu orchmynion gan Estyn, ac yn cadw'n fanwl atynt, ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r Contract neu sydd yn ymwneud ag ef. Bydd y Contractiwr yn derbyn cyfarwyddiadau a gorchmynion gan PAEM yn unig neu gan y rheiny a awdurdodwyd i wneud hynny ar ei rhan – Pennaeth Cangen neu Reolwr Gwasanaethau Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol, y Swyddog Arwain (Contractau) ac Arweinydd y Tîm Contractau, neu berson(au) awdurdodedig priodol arall y gall Estyn hysbysu'r Contractiwr amdano yn ysgrifenedig o dro i dro.

5.4 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig a phob aelod o'r Tîm Arolygu, gan gynnwys personau a benodwyd neu a awdurdodwyd gan y Contractiwr i ddarparu cymorth gweinyddol, yn cynnal yr Arolygiad, yr Adroddiad a'r Adroddiad Cryno yn unol â hynny a bennwyd gan Estyn, ac yn amodol ar ddeddfwriaeth a rheoliadau, arweiniad a chodau ymarfer sy'n gyfredol pan gynhelir yr Arolygiad.

5.5 Bydd y Contractiwr yn sicrhau y cynhelir y math priodol o Arolygiad – arolygiad byr, safonol neu lawn – fel a nodwyd yn y Gwahoddiad i Dendro. Os yw'r Contractiwr yn cynnal math anghywir o Arolygiad, bydd y contract ar gyfer yr Arolygiad hwnnw'n ddi-rym ac ni fydd y Contractiwr yn codi tâl ar Estyn am y math amhriodol hwnnw o Arolygiad.

5.6 Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol mewn perthynas ag Arolygu Sefydliadau Cymraeg a dwyieithog (Cymraeg a Saesneg):

5.6.1 bod pob aelod o'r Tîm Arolygu yn gallu cynnal ac yn cynnal y Gwasanaethau, gan gynnwys rhoi adborth a thrafod gwaith a welwyd, yn fedrus trwy gyfrwng y Gymraeg;

5.6.2 bod pob cyflwyniad, cyfweliad a phob adborth i staff mewn ysgolion o'r fath yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg;

5.6.3 bod pob cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys llythyrau, ffurflenni, drafftiau cychwynnol a dilynol o'r Adroddiad yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg; a

5.6.4 bod yr holl gyfieithiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg, neu fel arall, yn gywir a bod cysondeb rhwng fersiynau Saesneg a Chymraeg pob dogfen, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r adroddiadau a gyhoeddir, a gynhyrchir gan y Contractiwr yn unol â'i ymrwymiadau mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau.

5.7 Rhaid i'r Contractiwr sicrhau ei fod yn darparu cyfleusterau cyfieithu yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Estyn os yw'n ofynnol gan y Contract. Os oes angen cyfieithwyr a/neu ddehonglwyr ar y Tîm Arolygu, dylid eu trefnu drwy ymgynghori â'r ysgol, ond heb olygu costau ychwanegol iddi. Bydd Estyn yn nodi yn y wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r Gwahoddiad i Dendro a yw'r Sefydliad wedi nodi ymlaen llaw

bod angen gwasanaethau cyfieithu a, lle mae hynny'n briodol, bod yn rhaid cynnwys costau felly ym Mhris y Contract.

5.8 Bydd y Contractiwr yn sicrhau, lle bo gofyn i Arolygiad gael ei gynnal mewn perthynas â Sefydliad sy'n darparu addysg chweched dosbarth, bod y Tîm Arolygu yn cynnwys Arolygydd sydd wedi cael ei hyfforddi a'i gymeradwyo gan Estyn mewn perthynas ag arolygu cyfleusterau chweched dosbarth a bydd y cyfryw Arolygydd, mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau, yn cydlynu'r gwaith o arolygu cyfleusterau chweched dosbarth.

5.9 Bydd y Contractiwr yn sicrhau, lle bo gofyn i Arolygiad gael ei gynnal mewn perthynas â Sefydliad sy'n cynnwys uned ar wahân i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig, bod y Tîm Arolygu yn cynnwys Arolygydd sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Estyn i arolygu ysgolion arbennig, neu a nodwyd yn benodol bod anghenion addysgol arbennig yn arbenigedd ganddo yn ei gyfnod perthnasol, ac sydd wedi'i achredu i arolygu yn y cyfnod y mae'r uned yn darparu ar ei gyfer. Bydd yr Arolygydd hwn, mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau, yn cydlynu'r gwaith o arolygu'r cyfleusterau yn yr uned arbennig.

5.10 Ni fydd y Contractiwr a bydd yn sicrhau na fydd unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu:

(a) yn gwneud unrhyw gyhoeddiad nac yn creu unrhyw gyhoeddusrwydd mewn perthynas ag Estyn neu'r Gwasanaethau heb gytundeb ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw;

(b) yn ystod neu mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau a/neu berfformio unrhyw un o rwymedigaethau eraill y Contractiwr yn unol â'r Contract, yn cynnig neu'n marchnata gwasanaethau eraill y gallai'r Contractiwr a/neu unrhyw un o gyfarwyddwyr y Contractiwr (lle mae'r Contractiwr yn gorff corfforaethol) a/neu unrhyw bartner mewn partneriaeth felly (lle mae'r Contractiwr yn bartneriaeth) a/neu unrhyw aelod o'r tîm Arolygu, eu darparu o dro i dro; a/neu

(c) yn hysbysebu neu roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y Contractiwr a/neu unrhyw aelod o waith y Tîm Arolygu ar ran Estyn mewn unrhyw lenyddiaeth farchnata neu hyrwyddo mewn perthynas ag unrhyw fusnes y mae'r Contractiwr a/neu unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu yn gysylltiedig ag ef, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, heb gytundeb ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw.

6 Y TÎM AROLYGU

6.1 Bydd y Contractiwr ond yn dyrannu Arolygwyr Cofrestredig, Arolygwyr Lleyg ac Arolygwyr Tîm i Dimau Arolygu sydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr Ymrestredig. Rhaid codi unrhyw ymholiadau ynghylch lleoli unigolyn yn ysgrifenedig ymlaen llaw gyda Changen Contractau Estyn. Rhaid i Gontractwyr sicrhau hefyd bod pob Arolygydd sy'n cael ei leoli wedi'i gofrestru gydag Estyn ar gyfer y cyfnod ac agweddau perthnasol a, lle bo'n briodol, y meysydd pwnc, meysydd cwricwlwm a

gofynion Cymraeg perthnasol. Bydd Estyn yn darparu templed i bob Contractiwr er mwyn cwblhau ei restrau Timau Arolygu, a dylid anfon y rhestr at dîm Contractau Estyn o fewn 20 (ugain) Diwrnod Gwaith o roi enw'r Sefydliad i'r Contractiwr. Bydd Estyn yn cadarnhau cymhwyster y Timau Arolygu i ymgymryd â phob Arolygiad. Os bydd Estyn yn penderfynu nad yw Tîm Arolygu yn addas, hysbysir y Contractiwr o'r rhesymau a bydd angen iddo wneud y diwygiadau angenrheidiol. Yna bydd yn rhaid i'r Contractiwr gyflwyno rhestr ddiwygiedig y Tîm Arolygu i'w chymeradwyo. Ar ôl i Estyn gymeradwyo Rhestr Tîm Arolygu, hysbysir y Contractiwr.

6.2 Dan Adran 26(2) Deddf 2005, gall Estyn ddileu unrhyw Arolygydd Cofrestredig o'r gofrestr yn unol ag Adran 25 Deddf 2005 lle mae Estyn yn fodlon:

(a) nad yw'r Arolygydd Cofrestredig yn berson addas a phriodol bellach i gyflawni swyddogaethau Arolygydd Cofrestredig;

(b) nad yw'r person hwnnw'n gallu cynnal Arolygiadau yn fedrus ac yn effeithiol mwyach;

(c) bod y person hwnnw wedi methu'n sylweddol â chydymffurfio ag unrhyw amod a roddwyd arno gan PAEM;

(ch) bod y person hwnnw heb unrhyw eglurhad rhesymol wedi llunio Adroddiad neu Adroddiad Cryno sydd, yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol, yn gamarweiniol iawn.

6.3 Dan Atodlen 4 Deddf 2005, gall Estyn hefyd ddileu unrhyw Arolygydd o'r Rhestr Gofrestredig lle mae Estyn yn fodlon:

(a) nad yw'r Arolygydd yn berson addas a phriodol bellach i weithredu fel aelod o dîm arolygu;

(b) nad yw'r person hwnnw'n gallu cynorthwyo mewn arolygiad yn fedrus ac yn effeithiol mwyach;

(c) bod y person hwnnw wedi methu'n sylweddol â chydymffurfio ag unrhyw amod a roddwyd arno gan PAEM.

6.4 Pe bai Estyn yn ystyried bod unrhyw un o'r amgylchiadau a nodwyd yn Amod 6.2 (a)–(ch) neu Amod 6.3 (a)–(c) yn berthnasol i unrhyw un sy'n rhan o'r Tîm Arolygu, gall Estyn ofyn am ddileu person felly oddi ar y rhestr a chael rhywun arall y mae Estyn yn ei ystyried yn dderbyniol yn ei le.

6.5 Bydd y Contractiwr, mewn perthynas â'i Arolygwyr, ar bob adeg:

a) yn cynnal cofnodion o bryderon mewn perthynas ag ymddygiad a gallu gan gynnwys perfformiad, ac mae'n rhaid eu hildio i unrhyw gynrychiolydd awdurdodedig o Estyn ymhen 5 (pum) Diwrnod Gwaith i ddyddiad unrhyw gais a wnaed gan Estyn am y cofnodion;

b) hysbysu Estyn ar unwaith ac yn ysgrifenedig am unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymddygiad neu allu gan gynnwys perfformiad;

c) yn rhoi adborth i bob Arolygydd unigol am unrhyw bryder mewn perthynas ag ymddygiad a gallu gan gynnwys perfformiad mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw yn cydymffurfio ag Amod 13.1 ar bob adeg o ran gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac yn ildio tystiolaeth i unrhyw gynrychiolydd awdurdodedig o Estyn am adborth felly ac unrhyw gamau a gymerir ymhen 5 (pum) diwrnod gwaith i ddyddiad unrhyw gais a wnaed gan Estyn am wybodaeth felly; ac

ch) yn cydweithredu'n llawn mewn unrhyw ymchwiliad sy'n ofynnol gan Estyn.

6.6 Lle mae'r Arolygydd ar Arolygiad yn Gontractiwr hefyd, bydd y Contractiwr yn gyfrifol am gynnal gweithdrefnau sy'n bodloni'r gofynion a amlinellwyd yn Amod 6.5 uchod ac yn arwain at reoli gwybodaeth felly yn ddiduedd.

6.7 Bydd y Contractiwr yn sicrhau, mewn perthynas â phob Arolygiad Craidd y mae'r Contract yn ymdrin ag ef, bod nifer y diwrnodau arolygu a nodwyd yn y Fanyleb ar gyfer pob Arolygiad Craidd felly yn cael eu defnyddio'n llawn ac nad yw cyfanswm y diwrnodau y bydd y Tîm Arolygu ar safle'r Sefydliad yn ystod cyfnod Arolygiad Craidd felly, gan ddechrau â Dyddiad Dechrau'r Arolygiad, yn fwy nag uchafswm y diwrnodau a nodwyd yn y Fanyleb ar gyfer cyfnod Arolygiad Craidd felly ("Uchafswm Cyfnod"). Ni wneir unrhyw newid i nifer y diwrnodau arolygydd a/neu'r Uchafswm Cyfnod a nodwyd yn y Fanyleb mewn perthynas ag unrhyw Arolygiad heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw.

6.8 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod pob aelod o'r Tîm Arolygu yn gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg lle dyma fydd y brif iaith o ran bywyd a gwaith y Sefydliad ac mewn Sefydliadau cyfrwng Saesneg sydd ag unedau cyfrwng Cymraeg dynodedig. Mewn Sefydliadau lefel gynradd lle addysgir Cymraeg fel ail iaith, rhaid bod aelod o'r tîm yn gallu trafod materion yn Gymraeg â staff perthnasol os gofynnir iddo/iddi wneud hynny.

6.9 Bydd Estyn yn dyrannu Asesydd Cymheiriaid i'r Arolygiad, yn amodol ar absenoldeb unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag Asesydd Cymheiriaid felly a'r Sefydliad. Rhaid i'r Contractiwr gysylltu â'r Asesydd Cymheiriaid er mwyn cadarnhau trefniadau ar gyfer cyfranogiad Asesydd Cymheiriaid felly, cynnwys yr Asesydd Cymheiriaid lle bydd ar gael fel aelod llawn o'r Tîm Arolygu, a sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig yn rhoi pob cymorth angenrheidiol fel a nodir gan y Llawlyfrau Arweiniad er mwyn iddynt allu cyflawni'u rôl fel a ddisgrifiwyd. Ar ddiwedd yr Arolygiad, rhaid i'r Arolygydd Cofrestredig gydlofnodi ffurflen hawlio costau teithio a chynhaliaeth yr Asesydd Cymheiriaid, gan gadarnhau presenoldeb a chyfranogiad yr Asesydd Cymheiriaid ar yr Arolygiad. Bydd y Contractiwr, mewn perthynas â'i Aseswyr Cymheiriaid, yn hysbysu Estyn yn ysgrifenedig ar unwaith am unrhyw bryderon mewn perthynas ag ymddygiad neu allu, gan gynnwys perfformiad, a chydweithredu'n llawn ag Estyn mewn unrhyw ymchwiliad.

6.10 Rhaid i'r Contractiwr sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig yn cynnig cyfle i'r

Sefydliad gael **Enwebai**. Os yw'r Sefydliad yn dewis peidio â chael Enwebai, ni fydd hynny'n effeithio ar ganlyniad yr Arolygiad. Lle mae'r Sefydliad yn dewis cael Enwebai, rhaid i'r Arolygydd Cofrestredig ei reoli a'i leoli mewn modd sy'n galluogi'r Enwebai i ymgymryd â'r rôl a gytunwyd â'r Sefydliad. Rhaid i'r Arolygydd Cofrestredig wneud trefniadau ar gyfer yr Enwebai sy'n unol â'r Llawlyfrau Arweiniad bob amser.

7 GWRTHDARO BUDDIANNAU

7.1 Bydd y Contractiwr yn hysbysu Estyn yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl dan yr amgylchiadau am unrhyw wrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau posibl y gellid canfod yn rhesymol ei fod yn achosi gwrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau posibl ("gwrthdaro buddiannau canfyddedig") mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau gan y Contractiwr, neu unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu, y tybir eu bod yn benodol yn cynnwys:

(a) ymwneud cyhoeddus neu breifat â materion y Sefydliad y mae a wnelo'r Gwasanaethau â hi o ran y Contractiwr, a/neu unrhyw un o gyfarwyddwyr y Contractiwr (lle mae'r Contractiwr yn gorff corfforaethol), a/neu unrhyw bartner yn y Contractiwr (lle mae'r Contractiwr yn bartneriaeth), a/neu unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu, a/neu unrhyw briod neu aelod o deulu'r Contractiwr neu ffrind i'r Contractiwr, y cyfarwyddwyr, y partneriaid neu aelodau o'r Tîm Arolygu y soniwyd amdanynt uchod;

(b) unrhyw berson a gyflogir gan AALl neu gwmni neu sefydliad arall a reolir neu a ariennir gan AALl ac sy'n gweithredu fel Arolygydd mewn perthynas â (1) Sefydliadau'r AALl hwnnw neu (2) Sefydliad lle mae plant o fewn yr AALl hwnnw'n cael eu haddysg dan drefniadau gydag AALl arall, oni bai yn achos gweithiwr cwmni neu sefydliad a reolir neu a ariennir gan AALl y gellir pennu, a bod Estyn yn rhesymol fodlon, bod mesurau priodol i warantu annibyniaeth y cyfryw weithiwr wrth gyflawni ei rôl fel Arolygydd;

(c) os bydd unrhyw briod neu aelod o deulu'r Contractiwr, unrhyw un o gyfarwyddwyr y Contractiwr (lle mae'r Contractiwr yn gorff corfforaethol), unrhyw bartner yn y Contractiwr (lle mae'r Contractiwr yn bartneriaeth), neu unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu wedi gweithio yn y Sefydliad y mae a wnelo'r Arolygiad ag ef ar unrhyw adeg.

7.2 Os yw Estyn o'r farn resymol yn credu bod, neu y gallai unrhyw ddigwyddiad, sefyllfa neu gysylltiad a hysbyswyd gan y Contractiwr yn unol ag Amod 7.1 uchod neu unrhyw ddigwyddiad, sefyllfa neu gysylltiad arall y daw Estyn yn ymwybodol ohono achosi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig, bydd gan Estyn hawl i derfynu'r Contract ar unwaith heb unrhyw atebolrwydd o gwbl.

8 GWAHANIAETHU

8.1 Ni fydd y Contractwr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas darpariaethau Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000, Deddf Gwahaniaethu ar

sail Rhyw 1986 a Deddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd 1995 a 2005 a Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006 neu unrhyw ddiwygiadau statudol, ailddeddfu neu newidiad at hynny o dro i dro mewn perthynas â gwahaniaethu. Bydd y Contractiwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod holl ddarpariaethau'r Amod hwn yn cael eu cadw gan bob aelod o'r Tîm Arolygu a phersonau'n darparu cymorth gweinyddol.

9 STATWS Y CONTRACTIWR

9.1 Cytuna Estyn a'r Contractiwr nad oes unrhyw beth yn y Contract hwn sy'n creu (neu y bwriedir i greu) perthynas cyflogaeth rhyngddynt. Caiff y Contractiwr ei gyflogi fel contractiwr hunangyflogedig sy'n cyflawni contract ar gyfer gwasanaethau.

9.2 Ni fydd y Contractiwr (a bydd yn sicrhau nad yw holl aelodau'r Tîm Arolygu nac unrhyw gymorth gweinyddol) yn ei gynrychioli ei hun, nac yn dweud na gwneud dim mewn modd a allai arwain pobl i gredu bod y Contractiwr yn asiant Estyn na bod Estyn yn gyfrifol am weithredoedd neu atebolrwydd y Contractiwr.

9.3 Ni fydd dim yn y Contract hwn yn rhoi unrhyw atebolrwydd ar Estyn mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a achosir gan y Contractiwr (gan gynnwys mewn perthynas â'r rhai a gyflogir gan y Contractiwr i gyflawni'r Gwasanaethau a/neu berfformio unrhyw un o rwymedigaethau eraill y Contractiwr o dan y contract) i unrhyw berson neu endid arall ond ni chymerir hyn yn eithrio na chyfyngu ar unrhyw atebolrwydd gan Estyn a allai godi oherwydd torri'r Contract hwn neu unrhyw esgeulustra ar ran Estyn.

9.4 Bydd y Contractiwr yn sicrhau, wrth ddarparu'r Gwasanaethau ac wrth gyflawni rhwymedigaethau eraill yn unol â'r Contract ac wrth ohebu ag Estyn, ei fod bob amser yn gwneud hynny yn enw'r endid cyfreithiol y cyflwynodd ei dendr ar gyfer darparu'r Gwasanaethau yn ei enw.

9.5 Bydd y Contractiwr yn hysbysu Estyn ddim hwyrach na 2 (dau) fis cyn y digwydd unrhyw newid rheolaeth yn y Contractiwr, fel a ddiffinnir gan Adran 416 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988, neu, lle byddai hyn yn gwrthdaro â materion rheoleiddiol ariannol y DU (gan gynnwys yn benodol reolau Cyfnewidfa Stoc Llundain sydd mewn grym ar y pryd neu unrhyw gorff sy'n cymryd ei swyddogaethau), cyn gynted â phosibl a beth bynnag ddim hwyrach na 2 (dwy) wythnos wedi'r newid rheolaeth.

10 DIOGELEDD AC IECHYD A DIOGELWCH

10.1 Bydd y Contractiwr yn cymryd pob cam a ofynnir yn rhesymol gan Estyn i rwystro personau nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan Estyn neu gan y Contract hwn rhag cael mynediad i'r Sefydliad. Os yw Estyn yn hysbysu'r Contractiwr nad yw rhyw berson i gael mynediad i neu ei fod i'w symud o'r Sefydliad neu os nad yw'r person hwnnw i fod i gael rhan ym mherfformiad y Contract neu ei fod i'w symud o gael rhan ym mherfformiad y Contract, bydd y Contractiwr yn cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â hysbysiad felly. Os gofynnir gan Estyn, bydd y Contractiwr yn rhoi

person cymwys arall yn lle'r person a symudwyd dan yr Amod hwn, ar yr amod bod y person hwnnw'n cael ei gymeradwyo dan Amod 12.2 isod ac yn sicrhau bod unrhyw docyn mynediad a roddwyd i'r person a symudwyd yn cael ei roi i'r person neu gynrychiolydd y person a roddodd y caniatâd.

10.2 Caiff personél y Contractiwr a awdurdodir i fynd i mewn i'r Sefydliad ei gyfyngu i'r rhai a restrir gan y Contractiwr a phersonau a benodir ac a awdurdodir gan y Contractiwr i ddarparu cymorth gweinyddol. Rhaid i'r Contractiwr ddarparu adnabyddiaeth ffurfiol, neu dechnoleg arall debyg neu ffurf arall ar, adnabyddiaeth y gall Estyn o dro i dro hysbysu'r Contractiwr yn ei chylch, i bob aelod o'r Tîm Arolygu a phob person sy'n darparu cymorth gweinyddol, a rhaid eu harddangos bob amser o fewn y Sefydliad.

10.3 Bydd penderfyniad Estyn a yw rhywun i gael mynediad neu a yw i'w symud o'r Sefydliad neu nad yw i fod i gymryd rhan ym mherfformiad y Contract neu a yw i'w symud o gymryd rhan yn unig ym mherfformiad y Contract ac a yw'r Contractiwr wedi darparu'r wybodaeth ac wedi cymryd y camau sy'n ofynnol iddo eu cymryd dan yr Amod hwn yn derfynol ac yn bendant ac yn gyfrwymol o ran y Contractiwr.

10.4 Bydd y Contractiwr yn sicrhau na fydd unrhyw berson awdurdodedig gan gynnwys personél cymorth gweinyddol a ddefnyddir gan y Tîm Arolygu wrth ddarparu'r Gwasanaethau a/neu wrth gyflawni unrhyw un o rwymedigaethau eraill y Contractiwr yn unol â'r Contract yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth gan aelodau'r Tîm Arolygu ar unrhyw amser tra bônt gyda disgyblion yn y Sefydliad.

10.5 Bydd y Contractiwr:

(a) yn sicrhau bod pob unigolyn sy'n ymweld â Sefydliad wrth gyflawni'r Gwasanaethau neu unrhyw rwymedigaeth arall gan y Contractiwr, wedi cael gwiriad manylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, wedi'i gynnal nid mwy na thair (3) blynedd cyn ymweliad o'r fath; ac

(b) mewn perthynas ag unrhyw unigolyn nad yw'n aelod o'r Tîm Arolygu a/neu ar Restr Gofrestredig Estyn, yn anfon y gwiriad manylach gwreiddiol i Estyn cyn yr ymweliad cyntaf gan yr unigolyn perthnasol.

10.6 Bydd y Contractiwr yn gyfrifol fod ei weithwyr, asiantiaid ac isgontractwyr yn cadw pob rhagofal diogelwch sy'n angenrheidiol ar gyfer amddiffyn ei weithwyr, asiantiaid ac isgontractwyr ac unrhyw bersonau eraill gan gynnwys yr holl ragofalon sy'n ofynnol i'w cadw gan unrhyw Ddeddf Seneddol neu reoliad neu is-ddeddf neu awdurdod lleol neu awdurdod arall a fydd mewn grym o dro i dro. Bydd y Contractiwr yn cydweithredu'n llawn gyda'r Awdurdod Priodol i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni'n gywir.

11 TROSGLWYDDO AC IS-OSOD

11.1 Ni fydd y Contractiwr yn rhoi, bargeinio, trosglwyddo nac yn newyddu na gwaredu'r Contract neu unrhyw ran ohono mewn dull arall, heb ganiatâd ysgrifenedig Estyn

ymlaen llaw.

11.2 Ni fydd y Contractiwr yn is-osod y Contract nac yn is-gontractio unrhyw un o rwymedigaethau'r Contractiwr dan y Contract heb ganiatâd ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw, ar yr amod y gallai'r Contractiwr, heb ganiatâd Estyn ymlaen llaw, bob amser wneud is-gontract gydag Arolygydd Cofrestredig (os yw'n wahanol i'r Contract) neu unrhyw Arolygydd arall yn y Tîm Arolygu fel rhan o'i drefniadau ar gyfer cyflogi'r Tîm Arolygu.

11.3 Lle mae'r Contractiwr yn gwneud is-gontract yn unol ag Amod 11.2 gydag unrhyw Arolygydd neu unrhyw berson arall ar gyfer cyflawni unrhyw un o rwymedigaethau'r Contractiwr dan y Contract, bydd y Contractiwr yn sicrhau bod is-gontract felly yn cynnwys:

(a) rhwymedigaethau ar is-gontractiwr felly sy'n adlewyrchu rhwymedigaethau'r Contractiwr dan y Contract, gan gynnwys y darpariaethau mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau, rhoddion llwgr a pherchnogaeth gwybodaeth a nodwyd yn Amodau 7, 19 a 21; a

(b) rhwymedigaeth ar y Contractiwr i dalu is-gontractiwr felly o fewn cyfnod penodedig nad yw'n fwy na thri deg (30) diwrnod ar ôl i'r Contractiwr dderbyn anfoneb ddilys mewn perthynas â'r un mater.

11.4 Os bydd y Contractiwr yn is-gontractio unrhyw ran o'r Gwasanaethau a/neu rwymedigaethau eraill y Contractiwr yn unol â'r Contract, ni fydd y Contractiwr yn cael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd neu rwymedigaeth o dan y Contract a bydd yn parhau i fod yn atebol am holl weithredoedd, hepgoriadau a/neu ddiffygion unrhyw is-gontractiwr felly fel pe bai'r Contractiwr, ei swyddogion, ei weithwyr neu ei asiantiaid yn cyflawni'r gweithredoedd, yr hepgoriadau a/neu'r diffygion.

12 AMRYWIO'R TÎM AROLYGU

12.1 Bydd Estyn yn gofyn i'r Contractiwr lenwi lle unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu lle nad yw'r person hwnnw yn cyflawni, neu lle mae'n peidio â chyflawni, unrhyw un o'r gofynion sy'n berthnasol iddo dan y ddeddfwriaeth mewn grym ar y pryd. Bydd penderfyniad Estyn yn derfynol ac yn bendant o ran a ddylid gadael i unrhyw berson gymryd rhan mewn Arolygiad.

12.2 Ni all y Contractiwr newid yr un aelod o'r Tîm Arolygu heb ganiatâd ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw. Rhaid i'r Contractiwr sicrhau bod unrhyw Arolygydd amnewid wedi'i awdurdodi gan Estyn i arolygu'r cyfnod ac agweddau perthnasol a, lle bo'n briodol, y meysydd pwnc, meysydd cwricwlwm a gofynion Cymraeg perthnasol fel y'u rhestrir yn y Rhestr Gofrestredig. Er gwaethaf cyflawni'r gofyniad hwn gan y Contractiwr, bydd Estyn yn cadw disgresiwn llawn bob amser o ran pa un a ddylid cymeradwyo unrhyw newid arfaethedig neu beidio. Os, am ba reswm bynnag, y bydd cyfanswm nifer y newidiadau i'r Tîm Arolygu yn uwch na 25% (pump ar hugain y cant) o gyfanswm nifer y diwrnodau arolygu o hynny a gytunwyd ar adeg cymeradwyaeth wreiddiol Estyn y bydd y Tîm Arolygu i'w dreulio yn y Sefydliad (ac

eithrio yn achos Timau Arolygu 3 (tri) pherson lle byddai newid 1 (un) Arolygydd yn uwch na'r terfyn hwn), yna gellir terfynu'r Contract hwn ar unwaith yn ôl disgresiwn Estyn heb unrhyw atebolrwydd.

12.3 Mewn achos lle digwydd anabledd y gellir ei brofi i unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu, ar wahân i'r Arolygydd Cofrestredig, sy'n ei atal rhag cymryd rhan bellach yn narpariaeth y Gwasanaethau, bydd y Contractiwr yn darparu olynydd priodol yn ei le fel nad effeithir ar Ddyddiad Cwblhau'r Contract ac ansawdd yr Arolygiad. Bydd y Contractiwr yn cyflwyno manylion am yr olynydd i Estyn ar gyfer cymeradwyaeth ysgrifenedig yn gyntaf. Bydd unrhyw newid o'r fath yn cyfrif tuag at y canran a ddyfynnir yn Amod 12.2 uchod. Lle digwydd anabledd y gellir ei brofi i'r Arolygydd Cofrestredig yn y Tîm Arolygu, efallai y terfynir y Contract neu cymerir camau eraill priodol fel y penderfyna Estyn.

12.4 Yn ychwanegol at yr uchod, lle na all Arolygydd Cofrestredig barhau gydag Arolygiad pan fydd wedi cychwyn (a fydd at ddibenion yr Amod hwn yn golygu wedi i Gyfarfod y Rhieni gael ei gynnal), bydd yr amodau canlynol yn berthnasol i'w olynydd:

(a) rhaid i'r Contractiwr ofyn am gymeradwyaeth Estyn yn ysgrifenedig, gan roi rhesymau am y newid arfaethedig; a

(b) rhaid i'r Contractiwr hysbysu'r Awdurdod Priodol.

13 SICRHAU ANSAWDD A THREFNIADAU ARCHWILIO

13.1 Cyfrifoldeb y Contractiwr yw rheoli ansawdd yn unol â gofynion y Llawlyfrau Arweiniad ac unrhyw arweiniad neu gyfarwyddiadau pellach a gyhoeddir gan Estyn o dro i dro. Dylai contractwyr ystyried, a chydweithredu gydag Estyn hefyd wrth roi gweithdrefnau sicrhau ansawdd Estyn ar waith fel y'u hamlinellwyd yn y fersiwn ddiweddaraf o "Trefniadau Estyn ar gyfer Sicrhau Ansawdd Gwaith wedi'i Gontractio yn Allanol mewn Perthynas ag Arolygiadau Ysgolion". Bydd hawl gan Estyn i fonitro ac asesu ansawdd y Gwasanaethau a ddarperir gan y Contractiwr a chyflawni rhwymedigaethau eraill y Contractiwr yn unol â'r Contract, a fydd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gynnal ymweliadau i'r Sefydliad yn ystod cyfnod darparu'r Gwasanaethau er mwyn monitro darpariaeth y Gwasanaethau a gwneud ymarferiad monitro ar sampl o Adroddiadau.

13.2 Bydd y Contractiwr yn cydweithredu'n llawn, ac yn sicrhau bod holl aelodau'r Tîm Arolygu yn cydweithredu'n llawn ag unrhyw un o AEM neu archwilwyr statudol Estyn, eu hasiantiaid priodol ac unrhyw aelodau enwebedig o staff Estyn a benodwyd i wneud ymweliadau monitro yn unol ag Amod 13.1 uchod, gan gynnwys sicrhau bod ymatebion cyflym yn cael eu rhoi i bob cais am wybodaeth. Bydd y cymorth yn ymestyn i ddarparu ar gais pob dogfennaeth berthnasol (ym marn Estyn) i'w harchwilio, a bydd aelodau'r Tîm Arolygu yn mynychu unrhyw gyfarfod a phob cyfarfod yn ymwneud â'r Arolygiad yn y Sefydliad neu rywle arall.

13.3 Os cynhelir ymweliad monitro yn unol ag Amod 13.1 uchod, bydd Estyn yn

hysbysu'r Contractiwr yn ysgrifenedig ynghylch sut y mae'r ddarpariaeth Gwasanaethau a/neu rwymedigaethau eraill gan y Contractiwr yn bodloni gofynion Estyn fel y nodir hwy yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin, ynghyd â llawlyfrau a chanllawiau atodol eraill a gyhoeddir gan Estyn. Hefyd, yn ddiweddarach, bydd y Contractiwr yn cael arfarniad ysgrifenedig ffurfiol am ansawdd Adroddiad y Contractiwr am y Sefydliad dan sylw. Bydd arfarniad o'r ddarpariaeth Gwasanaethau a/neu rwymedigaethau eraill yn unol â'r Contract gan y Contractiwr yn cynnwys dyfarnu graddau mewn perthynas ag ansawdd y ddarpariaeth Gwasanaethau a/neu rwymedigaethau eraill felly, y darperir manylion ysgrifenedig am hynny i'r Contractiwr (gelwir yn adborth datblygol ar hyn o bryd), a hynny ar ôl i'r caniatâd ysgrifenedig am ddatgelu gwybodaeth felly gael ei derbyn gan Estyn o'r Arolygydd (Arolygwyr) perthnasol.

13.4 Cyfrifoldeb y Contractwr yw hysbysu pob aelod unigol o'r Tîm Arolygu am ganlyniadau unrhyw arfarniad a gynhelir gan Estyn mewn perthynas â pherfformiad yr unigolyn hwnnw. Mae'r Contractiwr yn sicrhau Estyn na fydd yn rhyddhau gwybodaeth sy'n ymwneud ag arfarniad unrhyw aelod unigol o'r Tîm Arolygu i unrhyw berson heblaw'r unigolyn hwnnw.

13.5 Lle bydd Estyn yn penderfynu gwneud adolygiad tystiolaeth, bydd y Contractiwr, ar gais, yn anfon, neu'n trefnu anfon â llaw neu bost dosbarth cyntaf wedi'i gofnodi, y dystiolaeth gyfan neu rannau o'r dystiolaeth y gall Estyn ofyn amdani, er mwyn ei harchwilio. Dylid anfon y cyfryw ddeunydd yn rhad ac am ddim i Estyn, ar ei ffurf wreiddiol, a gall Estyn ei gadw'n barhaol neu dros dro.

13.6 Mae Estyn ymhellach yn cadw'r hawl i archwilio gweithdrefnau'r Contractwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag Amodau 6.5 a 6.6.

13.7 Bydd y Contractiwr yn caniatáu i aelodau perthnasol o staff Estyn y bydd Estyn yn eu henwebu o dro i dro, i gael mynediad at adeiladau'r Contractiwr, personél a holl gofnodion a dogfennau'r Contractiwr yng ngrym, gofal neu reolaeth y Contractiwr sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau a/neu'r materion a amlinellwyd yn y Datganiad Ansawdd a/neu unrhyw rwymedigaethau eraill y Contractiwr yn unol â'r Contract fel y gallai Estyn ofyn ac ar adegau y gallai Estyn ofyn at ddibenion monitro cydymffurfiaeth y Contractiwr â'r Datganiad Ansawdd a'i rwymedigaethau yn unol â'r Contract. Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod ei bersonél yn cydweithredu'n llawn ag Estyn mewn cysylltiad â'r un mater.

14 ADRODDIADAU

14.1 Bydd y Contractiwr yn sicrhau :

(a) bod clawr blaen yr Adroddiad yn cydymffurfio â hwnnw a ddarperir gan dempled priodol Estyn;

(b) lle nad yr Arolygydd Cofrestredig yw'r Contractiwr, ni ddylai enw'r Contractiwr nag unrhyw arwydd, logo neu farc yn ymwneud â'r Contractiwr ymddangos ar glawr yr Adroddiad; a

(c) bod enw a chyfeiriad y Contractiwr a lleoliad y tîm yn ymddangos yn yr Adroddiad ei hun, ar y dudalen olaf.

14.2 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod yr Adroddiad Llawn a'r Adroddiad Cryno yn cael eu cynnig mewn perthynas â'r materion a archwiliwyd o dan y Contract ac ni fydd yn cynnwys unrhyw adroddiad a wnaethpwyd o dan Adran 50 Deddf 2005 ac unrhyw faterion eraill a arolygwyd neu a adolygwyd o dan unrhyw gontract gyda'r Awdurdod Priodol. Caiff yr Adroddiad Llawn a'r Adroddiad Cryno eu strwythuro yn unol â'r Llawlyfrau Arweiniad a'r templedi diweddaraf a ddarperir.

14.3 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod yr Adroddiad Llawn a'r Adroddiad Cryno yn cael eu cyhoeddi:

(a) yn ddwyieithog pan fydd yr awdurdod addysg lleol yn gofyn am yr opsiwn hwn;

(b) yn ddwyieithog mewn perthynas â Sefydliadau sydd wedi'u dynodi'n ddwyieithog, neu lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu;

(c) ym mhob achos arall, yn Saesneg yn unig.

14.4 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod yr Adroddiad Llawn a'r Adroddiad Cryno yn cael eu hargraffu ar bapur gwyn A4 wedi'i ailgylchu, gan ddefnyddio ffurf-deip Arial du maint 12 (deuddeg) gyda thestun wedi ei unioni ar y chwith. Gall dalennau'r cloriau fod mewn lliwiau ar wahân i wyn.

14.5 Bydd y Contractiwr yn sicrhau, mewn perthynas â Sefydliadau sy'n darparu addysg chweched dosbarth, bod yr Adroddiad Llawn a'r Adroddiad Cryno yn cael eu cwblhau yn unol â'r Llawlyfrau Arweiniad.

14.6 Mae'r Contractiwr yn cydnabod y bydd yr hawlfraint ym mhob Adroddiad ac Adroddiad Cryno yn perthyn i Estyn ar ran y Goron yn unol ag Amod 21.5 a bydd y Contractiwr yn sicrhau:

(a) bod gan bob Adroddiad ac Adroddiad Cryno y datganiad hawlfraint a ddarperir gan Estyn;

(b) bod dalen flaen/clawr pob **Adroddiad** ac **Adroddiad Cryno** yn cynnwys y datganiadau:

"© Argraffydd a Rheolwr y Frenhines Llyfrfa Ei Mawrhydi 200X (dyddiad blwyddyn). Gellir ailddefnyddio'r Adroddiad hwn am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd hwn fel a enwyd uchod a rhaid nodi teitl yr Adroddiad. Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn o'r ysgol. Dan Ddeddf Addysg 2005, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau'n rhad ac am ddim i gategorïau arbennig o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar unrhyw un arall a wna

gais am gopi o'r adroddiad";

(c) bydd dalen gyntaf pob **Adroddiad Cryno** yn cynnwys y datganiadau:

Arolygwyd (enw'r ysgol) fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant. Anfonir copi o'r crynodeb hwn at bob teulu sydd â phlentyn yn yr ysgol. ***Gellir cael yr adroddiad llawn o'r ysgol.***

Cynhaliwyd yr arolygiad o (enw'r ysgol) rhwng (nodwch y dyddiadau) gan dîm annibynnol o arolygwyr, a arweiniwyd gan (enw'r Arolygydd Cofrestredig). Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan, Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	*da gyda nodweddion rhagorol*
Gradd 2	*nodweddion da a dim diffygion pwysig*
Gradd 3	*nodweddion da yn gorbwyso diffygion*
Gradd 4	*rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig*
Gradd 5	*llawer o ddiffygion pwysig"*

(d) bydd tudalen olaf pob **Adroddiad Cryno** yn cynnwys y datganiad:

'Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori gweithredu wrth ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan nodi'r camau y mae'r ysgol yn mynd i'w cymryd i ddelio gyda'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, ei ddosbarthu i holl rieni'r ysgol.'

14.7 Bydd y Contractiwr yn sicrhau ar ôl Arolygiad, ond cyn cyhoeddi'r Adroddiad, bod Awdurdod Priodol y Sefydliad yn cael 5 (pump) Diwrnod Gwaith o leiaf i ystyried cywirdeb ffeithiol copi o fersiwn drafft o'r Adroddiad.

14.8 Bydd y Contractiwr yn sicrhau y gwahoddir pob ysgol i gyflwyno ymateb i ganfyddiadau'r Arolygiad sydd i'w gynnwys yn yr Adroddiad yn unol â'r Llawlyfrau Arweiniad. Rhaid i'r Arolygydd Cofrestredig sicrhau bod yr ymateb yn cydymffurfio â'r Llawlyfrau Arweiniad cyn ei gynnwys yn yr Adroddiad. Bydd yr Arolygydd Cofrestredig yn rhoi terfyn amser i'r ysgol o 5 (pump) Diwrnod Gwaith o dderbyn copi o fersiwn drafft yr Adroddiad i gwblhau'r ymateb, er mwyn rhoi digon o amser i'r ymateb gael ei gynnwys yn yr Adroddiad. Dim ond â chytundeb yr Arolygydd

Cofrestredig y dylid cynnwys yr ymateb, ac ni ddylid atal neu oedi'r cytundeb hwnnw'n afresymol.

14.9 Lle mae'r Arolygydd Cofrestredig o'r farn bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn perthynas â'r Sefydliad neu fod angen gwella chweched dosbarth y Sefydliad yn sylweddol, bydd yn cyflwyno, neu bydd y Contractiwr, os ydyw'n wahanol i'r Arolygydd Cofrestredig, yn sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig yn cyflwyno, fersiwn drafft o'r Adroddiad i Estyn. Os yw Estyn yn gofyn am hynny, bydd yr Arolygydd Cofrestredig yn darparu, neu bydd y Contractiwr, os ydyw'n wahanol i'r Arolygydd Cofrestredig, yn sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig yn darparu, unrhyw wybodaeth bellach i Estyn y gall Estyn ei nodi.

14.10 Lle bo angen gwaith ychwanegol mewn perthynas â Sefydliad sydd angen mesurau arbennig neu fod angen gwella chweched dosbarth y Sefydliad yn sylweddol, bydd yr Arolygydd Cofrestredig yn cyflwyno, neu bydd y Contractiwr, os ydyw'n wahanol i'r Arolygydd Cofrestredig, yn sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig yn cyflwyno, atodlen ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol i gael ei chytuno gan Estyn. Ni ddylid ymgymryd ag unrhyw waith ychwanegol hyd nes bod Estyn wedi cytuno'n ysgrifenedig ar yr atodlen.

14.11 Lle mae'r Arolygydd Cofrestredig o'r farn bod angen gwella'r Sefydliad yn sylweddol, bydd yn dilyn, neu bydd y Contractiwr, os ydyw'n wahanol i'r Arolygydd Cofrestredig, yn sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig yn dilyn arweiniad Estyn sy'n gyfredol pan gynhelir yr Arolygiad.

14.12 O fewn y cyfnod priodol a nodwyd yn Rheoliad 7.2 o'r Rheoliadau ar gyfer paratoi'r Adroddiad a'r Adroddiad Cryno yn ysgrifenedig (sydd ym mis Ebrill 2008 yn 45 (pedwar deg a phump) Diwrnod Gwaith o Ddyddiad Cychwyn yr Arolygiad), bydd y Contractiwr yn darparu copïau electronig i Estyn:

(a) o'r Adroddiad (wedi'i gadw yn Microsoft Word 2000);

(b) o broffil y Sefydliad (sydd at ddiben yr Amodau Contract hyn yn golygu'r proffil ysgol a enwyd yn nhempled y ddogfen fel y'i darparwyd yng nghymhwysiad Athene Estyn) a

(c) phroffiliau pwnc perthnasol (sydd at ddiben yr Amodau Contract hyn yn golygu'r templedi dogfen a enwyd felly a ddarparwyd yng nghymhwysiad Athene Estyn).

gan ddefnyddio'r templedi a ddarperir ar gronfa ddata Athene Estyn, trwy ben blaen y We.

14.13 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod gan y Contractiwr:

(a) fynediad i'r rhyngrwyd;

(b) system sy'n gweithredu Windows;

(c) Internet Explorer 5.1 neu'n uwch, yn ogystal â chymhwysiad Athene (i'w lawrlwytho o'r rhyngrwyd, a / neu wedi ei ddarparu gan Estyn ar CD)

i alluogi'r Contractiwr i gyflawni ei rwymedigaethau yn unol ag Amod 14.12.

14.14 Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn unol ag Amod 14.12 uchod gan ddefnyddio Athene wedi'i gwirio, a'i bod yn gyflawn, yn gywir ac yn rhydd o unrhyw wall, a bod yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y fformat a nodwyd gan Athene.

14.15 Bydd y Contractiwr yn darparu neu'n sicrhau bod copi teipiedig o'r Adroddiad a'r Adroddiad Cryno yn cael ei ddarparu:

(a) i bennaeth y Sefydliad;

(b) (yn achos Sefydliad sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol neu'n ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig) i ba un bynnag o'r AALl neu'r lle nad y nhw yw'r Awdurdod Priodol;

(c) yn achos Sefydliad sy'n ysgol â llywodraethwyr sefydledig, i'r person sy'n eu penodi ac (os yw'n wahanol) i'r Awdurdod Penodi Priodol;

(ch) i'r Awdurdod Priodol, ynghyd â nifer felly o gopïau ychwanegol o'r Adroddiad a'r Adroddiad Cryno a nodwyd yn y Gwahoddiad i Dendro; ac

(d) i unrhyw berson arall fel y gellir pennu o dro i dro;

a bydd y Contractiwr yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig i Estyn bod pob un o'r copïau uchod wedi'u darparu felly.

14.16 Yn ychwanegol at yr uchod bydd y Contractiwr yn darparu i Estyn 28 (wyth ar hugain) copi o'r Adroddiad i'w ddosbarthu i Lyfrgelloedd Hawlfraint, aelodau etholaeth ac aelodau rhanbarthol y Cynulliad a'r Aelod Seneddol a 28 (wyth ar hugain) copi o'r Adroddiad Cryno. Tybir y byddant wedi cael eu cyflwyno pan dderbynnir yr Adroddiadau, a dogfennau neu ddeunyddiau eraill y gall fod yn ofynnol eu cyflwyno o dan y Contract hwn, i fodlonrwydd Estyn.

14.17 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod y dogfennau canlynol yn cael eu cadw am 6 (chwe) mis neu gyfnod arall a nodir yn ysgrifenedig gan y Swyddog Arwain: Contractau o ddyddiad cyhoeddi'r Adroddiad:

(a) ffurflen wybodaeth yr ysgol;

(b) ffurflenni arfarnu gwers (FfAG);

(c) ffurflenni arfarnu cyffredinol (FfAC);

(ch) yr holl sylwadau cyn yr arolygiad;

(d) cofnodion o gyfarfodydd gyda rhieni a'r Awdurdod Priodol;

(dd) ymatebion i holiaduron rhieni;

(e) adroddiad hunanarfarnu'r ysgol; ac

(f) unrhyw dystiolaeth arall sy'n ymwneud â'r Arolygiad.

14.18 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod unrhyw ddeunydd sy'n perthyn i ysgol yn cael ei ddychwelyd i'r Sefydliad cyn gynted â phosibl ar ôl yr Arolygiad, ond beth bynnag cyn pen 8 (wyth) wythnos o gychwyn yr Arolygiad.

14.19 Disgwylir y bydd yr Adroddiad a'r Adroddiad Cryno yn gywir yn ffeithiol, a'u bod yn gynrychiolaeth gywir o'r Sefydliad pan gynhelir yr Arolygiad ohono. Lle canfyddir bod camgymeriadau ffeithiol yn yr Adroddiad a bod Estyn o'r farn bod angen llunio "slip errata" mewn perthynas ag Arolygiad, bydd y Contractiwr yn gyfrifol am lunio'r cyfryw ddalen errata ar ei gost ei hun a'i dosbarthu yn ôl y gofynion ar gyfer yr Adroddiad.

15 CWYNION

15.1 Bydd y Contractiwr yn rhoi ar waith, ac yn delio â phob cwyn yn unol â gweithdrefn gŵynion sy'n adlewyrchu cyfnodau un a dau o'r Weithdrefn Gŵynion, yr Arweiniad ar Gŵynion a'r egwyddorion a amlinellwyd o dan y pennawd "Gwneud cwyn" yn y Weithdrefn Gŵynion, gan gynnwys heb gyfyngu ar unrhyw raddfeydd amser a amlinellwyd mewn Gweithdrefn Gŵynion ac Arweiniad ar Gŵynion felly, ac:

(a) os bydd unrhyw achwynydd yn mynegi anfodlonrwydd ag ymateb y Contractiwr wrth gwblhau cyfnod dau mewn gweithdrefn o'r fath, bydd y Contractiwr yn cyfeirio cwyn o'r fath i Estyn ar unwaith;

(b) os nad yw cyfnod dau mewn gweithdrefn o'r fath wedi'i gwblhau gan y Contractiwr o ran unrhyw gŵyn o fewn y raddfa amser i'r diben hwnnw, bydd y Contractiwr yn hysbysu Estyn ar unwaith gan roi'r un manylion am y rheswm am yr un peth, a gallai Estyn yn ei ddisgresiwn absoliwt naill ai warantu estyniad i'r Contractiwr ar gyfer cwblhau cyfnod dau o ran cwyn felly (lle bydd darpariaethau'r paragraff hwn (b) yn berthnasol pan ddaw estyniad amser o'r fath i ben) neu ofyn i'r Contractiwr, a bydd y Contractiwr yn cyfeirio cwyn o'r fath i Estyn ar unwaith.

Ar yr un adeg ag y cyfeirir unrhyw gŵyn o'r fath i Estyn yn unol â pharagraffau (a) neu (b) uchod, bydd y Contractiwr yn rhoi manylion llawn i Estyn am yr achwynydd, natur cwyn felly a chopi o ffeil y Contractiwr mewn perthynas â chwyn o'r fath. Mae'r Contractiwr yn cydnabod ac yn cytuno mai Estyn yn unig fydd yn gyfrifol am ddelio ag unrhyw gŵyn a gyfeirir at Estyn yn dilyn cyfeirio o'r fath.

15.2 Os yw'r Contractiwr yn torri ei rwymedigaethau yn unol ag amod 15.1 uchod i gyfeirio unrhyw gŵyn i Estyn a/neu i hysbysu Estyn am fethiant i gwblhau cyfnod

dau mewn perthynas ag unrhyw gŵyn o fewn y raddfa amser o ganlyniad a/neu i roi copi i Estyn o ffeil y Contractiwr mewn perthynas ag unrhyw gŵyn y dylid ei chyfeirio at Estyn yn unol ag amod 15.1 uchod, bydd gan Estyn hawl i ddelio â chwyn felly ar ran y Contractiwr, lle bydd y Contractiwr (ar ei draul ei hun) yn rhoi cymorth a dogfennaeth felly mewn cysylltiad â chwyn o'r fath fel y gallai Estyn ofyn, heb ragfarn i gyffredinoldeb darpariaethau amod 15.5.

15.3 Mae Estyn o'r farn y dylid delio â chwynion yn gyfrinachol ac y dylai'r wybodaeth sy'n dod i law barhau yn gyfrinachol, er mwyn delio â chwynion yn effeithiol a sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn gallu mynegi eu barn yn rhydd. Bydd Estyn yn cyfyngu ar y bobl y rhennir manylion am yr achwynydd gyda nhw ar sail "fel sy'n ofynnol", a bydd dim ond yn cyhoeddi manylion cyffredinol yn rheolaidd am gŵynion nad ydynt yn datgelu pwy yw'r rheiny sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, mae Estyn yn agored i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a rhwymedigaethau eraill a allai olygu na all Estyn bob amser gydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfrinachedd cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn ei weithdrefnau cwynion ei hun neu wybodaeth a gafwyd ar sail felly gan y Contractiwr trwy ei weithdrefnau ei hun. Dylai'r Contractiwr ystyried hyn yn ei weithdrefn ei hun ac wrth gynnal cyfnod cyntaf ac ail gyfnod y weithdrefn. Bydd Estyn bob amser yn ceisio hysbysu ac ymgynghori ag unrhyw unigolion sydd wedi darparu gwybodaeth cyn i Estyn ryddhau gwybodaeth felly.

15.4 Lle'r Arolygydd Cofrestredig neu Arolygydd Tîm ar gyfer Arolygiad yw'r Contractiwr hefyd, neu lle mae cysylltiad gwirioneddol neu ganfyddedig rhwng y 2 (ddau), dylai'r Contractiwr wneud trefniadau ychwanegol neu wahanol i ddelio â chwynion. Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am gael gweithdrefnau sy'n arwain at ymchwilio'n ddiduedd i gŵynion. Lle mae'r Contractiwr yn defnyddio trydydd parti annibynnol i ymchwilio i gŵynion, bydd y Contractiwr yn hysbysu'r achwynydd ac Estyn am enw'r person hwn a'r cyfeiriad gohebu fel bod modd i'r achwynydd gysylltu'n uniongyrchol. Dylid gwneud hyn os yw'r Contractiwr yn gwybod am y cysylltiad, neu pan welir bod cysylltiad, pa un a yw'r achwynydd yn gwybod hynny neu beidio.

15.5 Bydd y Contractiwr (ar ei draul ei hun) yn cydweithredu'n llawn ag Estyn mewn unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan Estyn i unrhyw gŵynion ynglŷn â pherfformiad y Gwasanaethau a/neu unrhyw rwymedigaeth arall y Contractiwr yn unol â'r Contract, a bydd heb gyfyngiad (ar ei draul ei hun) yn sicrhau cydweithrediad y Tîm Arolygu mewn unrhyw ymchwiliad o'r fath ac yn sicrhau eu bod yn darparu unrhyw wybodaeth y gofynna Estyn amdani ac ar ffurf y gofynnir amdani a all fod neu sydd wedi bod yn eu meddiant. Bydd y Contractiwr yn gwneud ei orau i ymateb yn llawn i unrhyw ohebiaeth a darparu unrhyw wybodaeth i Estyn fel y gofynna Estyn amdani neu a all fod yn eu meddiant neu ym meddiant yr Arolygydd Cofrestredig cyn pen 5 (pump) Diwrnod Gwaith o dderbyn cais Estyn.

15.6 Bydd y Contractiwr (ar ei draul ei hun) yn rhoi manylion o'r cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â'r templed Estyn diweddaraf a ddarparwyd. Bydd y Contractiwr yn darparu'r wybodaeth hon mewn adroddiadau chwarterol i Estyn yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am sicrhau bod dilysrwydd a chywirdeb y wybodaeth a geir yn y templed wedi ei harchwilio ddigon, a'i bod yn gywir.

15.7 Ar ôl i'r Contractiwr gwblhau archwilio'r gŵyn berthnasol, bydd y Contractiwr yn

cadw'r holl dystiolaeth yn ymwneud â'r gŵyn am ddeuddeg mis neu gyfnod arall a nodir gan Estyn.

16 TALIAD

16.1 Bydd y Contractiwr yn cyflwyno anfoneb i Estyn cyn pen 30 (deg ar hugain) diwrnod ar ôl darparu copïau o'r Adroddiad a'r Adroddiad Cryno a data'r arolygiad. Bydd anfonebau'n cynnwys arolygiadau Sefydliadau unigol. Rhaid i'r pris ar yr anfoneb fod yn Bris y Contract neu fel y'i newidiwyd wedi hynny gyda chytundeb ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw. Bydd pob anfoneb yn dangos y manylion a ganlyn yn eglur:

(a) enw, cyfeiriad a rhif cod y Contractiwr;

(b) enw a rhif y Sefydliad;

(c) rhif yr Arolygiad;

(ch) dyddiad yr arolygiad;

(d) rhif yr anfoneb a dyddiad yr anfoneb;

(dd) Pris y Contract;

(e) enw a chost unrhyw eitemau/costau ychwanegol a gytunwyd;

(f) TAW lle bydd yn gymwys a Rhif Cofrestru TAW;

(ff) cyfarwyddiadau arbennig i dalu; ac

(g) enw cyswllt a rhif ffôn ar gyfer ymholiadau.

16.2 Bydd holl daliadau Estyn yn cael eu gwneud drwy BACSTEL, sy'n galluogi gwneud taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r Contractiwr. Bydd y Contractiwr yn gyfrifol am roi manylion banc (ac unrhyw newidiadau i'r manylion) i'r Cleient at y diben hwn. Dylid dangos TAW, lle bydd yn berthnasol, ar wahân ar bob anfoneb fel taliad net yn gyfan gwbl.

16.3 Yn amodol ar ddarpariaethau Amod 16.4 isod, bydd Estyn yn talu'r swm a nodir yn yr Atodlen Brisio i'r Contractiwr cyn pen 30 (deg ar hugain) diwrnod o'r Contractiwr yn cyflwyno anfoneb.

16.4 Bydd taliad yn amodol ar:

(a) y wybodaeth a ddarperir gan y Contractiwr yn unol ag Amod 14.12 uchod yn gyflawn ac yn rhydd o unrhyw wall; a

(b) bod y Contractiwr wedi cyflawni ei rwymedigaethau yn unol ag Amodau 14.4,

14.15 a 14.16 uchod.

16.5 Yn achos Sefydliadau y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt neu y tybir bod angen gwella eu darpariaeth chweched dosbarth yn sylweddol, bydd yr Arolygydd Cofrestredig yn cyflwyno fersiwn drafft o'r Adroddiad. Ni fydd y Tîm Arolygu yn gwneud unrhyw waith pellach ar yr Adroddiad nes gwneud ymweliad cadarnhau, neu nes yr ymgymerir ag unrhyw gamau pellach y gall Estyn o dro i dro hysbysu'r Contractiwr amdanynt. Gan fod hyn yn oedi fersiwn terfynol yr Adroddiad a'r Adroddiad Cryno, gall y Contractiwr anfon anfoneb at Estyn am 80% (wyth deg y cant) o Bris y Contract wrth gyflwyno fersiwn drafft teipiedig o'r Adroddiad. Bydd y gweddill o 20% (ugain y cant) o Bris y Contract yn cael ei dalu gan Estyn i'r Contractiwr pan anfonebir Estyn wedi hynny ar ôl gorffen unrhyw adolygiad a thrafodaeth pan gyflwynir fersiwn terfynol yr Adroddiad, ac yn amodol bob amser ar delerau Amod 16.4 uchod. Gall y Contractiwr naill ai gyflwyno anfoneb ar wahân yn cynnwys y costau ychwanegol hynny'n unig, neu anfoneb unigol yn ei lle yn cynnwys cost lawn newydd yr Arolygiad. Bydd yr anfonebau'n dangos yr un manylion a ddisgrifir yn Amod 16.1 uchod.

16.6 Ac eithrio pan fydd cymeradwyaeth ysgrifenedig blaenorol gan Estyn ni fydd unrhyw daliad am waith a gyflawnir sydd y tu allan i'r Gwasanaeth neu gyfnod y Contract.

17 TRETH AR WERTH

17.1 Bydd Estyn yn talu i'r Contractiwr, yn ychwanegol at Bris y Contract, o'i hawlio'n gyfreithiol, wrth gynnal busnes arferol, swm sy'n gyfwerth ag unrhyw Dreth ar Werth sy'n daladwy ar werth cyflenwi'r Gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r Contract.

17.2 Bydd unrhyw anfoneb neu gais arall am daliad o arian sy'n ddyledus i'r Contractiwr o dan y Contract, os yw'r Contractwr yn endid trethadwy, ar yr un ffurf ac yn cynnwys yr un wybodaeth ag y byddai petai'n anfoneb dreth at ddibenion Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Cyllid 1972.

18 OEDI O RAN CYHOEDDI

18.1 Pe bai'r Contractiwr yn dod yn ymwybodol y gall amgylchiadau eithafol olygu y bydd yr Adroddiad neu'r Adroddiad Cryno yn cael eu cwblhau'n hwyrach na Dyddiad Cwblhau'r Contract, rhaid iddo, o dan yr amgylchiadau, gysylltu â Changen Contractau Estyn gyda'r manylion cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, a gofyn am estyniad amser. Rhaid i'r Contractiwr nodi:

(a) bod rhaid cadarnhau'n ysgrifenedig ceisiadau a manylion ategol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl o dan yr amgylchiad(au):

(b) ni ddylid rhagdybio y bydd estyniad yn cael ei roi;

(c) rhaid i'r Contractiwr ofyn am estyniad hefyd pan dybir bod angen gweithredu mesurau arbennig mewn Sefydliad neu fod angen gwella ei ddarpariaeth

chweched dosbarth yn sylweddol;

(ch) ni roddir estyniad lle gwneir y cais wrth edrych yn ôl; a

(d) bydd Estyn yn ystyried ceisiadau gan y Sefydliadau eu hunain am estyniad amser cyfyngedig.

18.2 Pe na bai'r amodau a nodir yn Amod 18.1 uchod yn cael eu bodloni, neu pe na bai Estyn yn fodlon â'r esboniad a ddarperir gan y Contractiwr, mae Estyn yn cadw'r hawl, lle mae'n ystyried mai bai'r Contractiwr yw'r oedi, i ddidynnu o Bris y Contract, fel iawndal a ddiddymwyd ac nid fel cosb, swm nid mwy na'r hyn sy'n gyfwerth ag 1% (un y cant) o Bris y Contract am y Sefydliad am bob dydd y mae'n hwyr yn gorffen. Ni fydd unrhyw hawl adolygu'r swm a ddidynnir pan fydd Estyn wedi rhoi hysbysiad am y didyniad.

19 RHODDION LLWGR A THALIADAU COMISIWN

19.1 Ni fydd y Contractiwr (gan gynnwys unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu neu unrhyw gymorth gweinyddol):

(a) yn cynnig na rhoi na chytuno i roi i unrhyw berson yn Estyn neu yng nghyflogaeth yr Awdurdod Priodol neu rywun a gyflogir fel arall yn y Sefydliad unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliant neu wobr am wneud neu ymatal rhag gwneud neu am fod wedi gwneud neu ymatal rhag gwneud unrhyw weithred mewn perthynas ag ennill neu weithredu'r Contract hwn neu unrhyw Gontract arall i Estyn neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafr neu anfri tuag at unrhyw berson mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw Gontract arall gydag Estyn neu unrhyw gleient tebyg; ac

(b) yn gwneud y Contract hwn nac unrhyw Gontract arall gydag Estyn yng nghyswllt yr hyn y mae comisiwn wedi ei dalu neu wedi cytuno'i dalu ganddo ef neu ar ei ran, neu yn ôl ei wybodaeth ef, oni bai bod manylion unrhyw gomisiwn o'r fath a thelerau ac amodau unrhyw gytundeb am daliad wedi eu datgelu yn ysgrifenedig i Estyn cyn i'r Contract gael ei wneud.

19.2 Bydd unrhyw achos o dorri'r Amod hwn gan y Contractiwr neu gan unrhyw un a gyflogir ganddo neu sy'n gweithredu ar ei ran (gyda neu heb wybodaeth y Contractiwr) neu gyflawni unrhyw drosedd gan y Contractiwr neu unrhyw un a gyflogir ganddo neu sy'n gweithredu ar ei ran:

19.2.1 o dan Deddf Atal Llygredigaeth, 1889 i 1916, neu dan Ddeddfwriaeth sy'n creu troseddau mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus neu yng nghyfraith gwlad mewn cysylltiad â gweithredoedd twyllodrus mewn perthynas â'r Contract, neu unrhyw gytundeb arall gyda'r Awdurdod neu unrhyw Gontract arall am Wasanaeth Ei Mawrhydi; neu

19.2.2 sy'n twyllo, neu'n ceisio twyllo neu'n cynllwynio i dwyllo Estyn, PAEM

neu AEM;

yn rhoi hawl i Estyn derfynu'r Contract ac adennill gan y Contractiwr y swm o unrhyw golled fydd yn deillio o derfyniad o'r fath a/neu adennill gan y Contractiwr swm neu werth unrhyw rodd, cydnabyddiaeth neu gomisiwn o'r fath.

20 CYFLAFAREDDU

20.1 Ac eithrio Amod 15 uchod, caiff gwahaniaethau neu gwestiynau rhwng y Partïon mewn perthynas ag unrhyw fater neu beth yn deillio o'r Contract neu'n gysylltiedig â'r Contract, ar wahân i fater neu beth y mae penderfyniad Estyn yn derfynol ac yn bendant o dan y Contract a heblaw i'r graddau y gwnaethpwyd darpariaeth arbennig ar gyfer cyflafareddiad mewn man arall yn y Contract, eu cyfeirio i gyflafareddiad person unigol i'w benodi yn unol â darpariaethau Adran 16(3) o'r Ddeddf Cyflafareddu, a Chaerdydd, Cymru fydd yn cael ei dynodi fel canolfan cyflafareddu felly. Mae'r Partïon yn cytuno, yn amodol ar ddarpariaethau Adran 58 (2) Deddf Cyflafareddu 1996, y bydd penderfyniad cyflafareddwr o'r fath yn derfynol ac yn cael ei orfodi ar y Partïon.

20.2 Pe bai'r Partïon yn methu gwneud y penodiad yn unol ag Adran 16(3) y Ddeddf Cyflafareddu caiff y penodiad ei wneud gan Lywydd (neu os yw'r Llywydd yn amharod, yn analluog neu nid yw ar gael, yr Is-lywydd) presennol Cymdeithas y Cyfreithwyr.

20.3 Ystyrir bod y cyflafareddiad wedi cychwyn at y dibenion a nodir yn Adran 14(1) y Ddeddf Cyflafareddu pan fydd un Parti yn anfon hysbysiad ysgrifenedig at y Parti arall yn nodi y dylid cyfeirio'r mater i'w gyflafareddu.

20.4 Bydd y cyflafareddwr yn datrys yr anghydfod yn unol â chyfreithiau hawliau Cymru a Lloegr.

20.5 Caiff unrhyw gostau'n deillio o gyflafareddu o'r fath eu talu yn ôl cyfarwyddyd y cyflafareddwr. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae costau'n ymwneud â chyflafareddu'n cynnwys cost weinyddol resymol yr amser a dreuliwyd yn ymchwilio i'r mater a'r holl amser a'r costau yn ymwneud â pharatoi ar gyfer a chynnal y cyflafareddiad.

21 PERCHNOGAETH GWYBODAETH

21.1 Bydd yn Amod o'r Contract hwn na fydd y Contractiwr (gan gynnwys unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu) wrth ddarparu'r Gwasanaethau a rhwymedigaethau eraill y Contractiwr yn unol â'r Contract yn torri hawlfraint na hawliau perchenogol eraill unrhyw drydydd parti a bydd y Contractiwr yn indemnio Estyn yn erbyn pob gweithred, gorchymyn, cost a thraul (gan gynnwys costau cyfreithiol) y gall Estyn neu'r Goron eu dioddef neu eu cael o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r Amod hwn.

21.2 Bydd hawlfraint mewn unrhyw ddogfen neu ddeunydd sy'n cael eu paratoi gan yr

Arolygydd Cofrestredig at ddibenion y Contract hwn yn eiddo i'r Goron yn rhinwedd darpariaethau Amod 21.5 a bydd y Contractiwr yn sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig yn cydnabod hyn trwy ddefnyddio'r hysbysiad hawlfraint fel y'i nodir yn y Fanyleb.

21.3 Bydd ffurfiau'r Adroddiad a nodwyd o dan Adran 38 Deddf 2005 ac a baratowyd o dan y Contract hwn yn dod yn ddeunydd sydd ar gael i'r cyhoedd 5 (pum) Diwrnod Gwaith ar ôl cael ei anfon gan y Contractiwr neu'r Arolygydd Cofrestredig, os yw'n wahanol i'r Contractiwr, i'r Awdurdod Priodol ar gyfer y Sefydliad. Daw'r deunydd gwreiddiol a gyflwynir o dan Amodau 14.12, 14.15 ac 14.16 uchod yn eiddo i Estyn ond rhoddir mynediad rhesymol i'r Contractiwr ar gyfer unrhyw broses gyfreithiol. Rhaid difa'n llwyr unrhyw gopïau o'r deunydd hwn y gall Contractiwr fod wedi eu cadw ddim hwyrach na 90 (naw deg) diwrnod ar ôl derbyn y taliad terfynol o dan y Contract hwn. Ni fydd y Contractiwr yn cadw unrhyw gopïau eraill.

21.4 Daw'r deunydd gwreiddiol y cyfeirir ato yn Amodau 14.17 a 15.5 uchod yn eiddo i Estyn. Bydd yn cael ei gadw gan y Contractiwr, a fydd yn sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig yn cadw'r deunydd gwreiddiol ar ran Estyn, am gyfnod o 6 (chwe) mis yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad neu gyfnod arall tebyg y gellir ei nodi gan Estyn yn unol ag Amod 14.17 ("y Cyfnod Cadw"). Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod yr Arolygydd Cofrestredig yn cyflwyno'r deunydd gwreiddiol, yn gyfan neu yn rhannol fel y gallai fod yn ofynnol, i unrhyw gynrychiolydd awdurdodedig o Estyn cyn pen 5 (pump) Diwrnod Gwaith o ddyddiad unrhyw gais gan Estyn am y deunydd ar unrhyw adeg yn ystod y Cyfnod Cadw.

Rhaid i'r deunydd hwn a phob copi ohono gael ei ddifa'n llwyr ar ôl y cyfnod hwnnw, oni bai bod Estyn yn gofyn yn wahanol.

21.5 Mae'r Contractiwr:

(a) drwy hyn yn neilltuo i Estyn ar ran y Goron yn llwyr gyda gwarant teitl llawn pob teitl a diddordeb hawl byd-eang mewn, ac unrhyw hawlfreintiau a hawliau yn y dyfodol yn natur hawlfraint ym mhob ac at bob Adroddiad, Adroddiad Cryno, dogfennaeth y cyfeirir ati yn Amodau 14.12, 14.15, 14.16 ac 14.17 uchod, a phob adroddiad, cofnod, dogfen, data a gwybodaeth a ddatblygwyd neu a grëwyd gan neu ar ran y Contractiwr neu'r Arolygydd Cofrestredig (os yw'n wahanol i'r Contractiwr) neu unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu yn ystod neu mewn cysylltiad â neu ar gyfer eu defnyddio, neu ddefnydd arfaethedig, mewn perthynas â chyflawni'r Contract (gan gynnwys yr holl ddata a gofnodwyd i ffurfio sylfaen Adroddiadau, cofnodion a gwybodaeth felly) (y "Deunyddiau") gyda'r bwriad a chyda'r effaith y bydd pob hawl felly yn perthyn i Estyn ar ran y Goron yn awtomatig ar y dyddiad y caiff hawliau felly eu datblygu neu'u creu ar gyfer y tymor llawn am hynny, gan gynnwys pob adnewyddiad am hynny a phob estyniad at hynny, ynghyd â phob hawl, mantais neu allu sy'n deillio neu'n cronni oddi yno;

(b) yn trosglwyddo i Estyn ar ran y Goron gyda gwarant teitl llawn i bob hawl, teitl a diddordeb yn y Deunyddiau ac atynt

ac ni fydd y Contractiwr (ac eithrio'r graddau sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r Contract hwn) yn defnyddio nac yn datgelu unrhyw ran o'r Deunyddiau heb ganiatâd ysgrifenedig Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

21.6 Bydd y Contractiwr yn sicrhau bod y contract ar gyfer gwasanaethau rhwng y Contractiwr ac unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu nad yw'n gweithio i'r Contractiwr yn darparu y bydd yr holl deitl a'r diddordeb hawl mewn ac at unrhyw hawlfreintiau a hawliau yn natur yr hawlfraint yn ac i'r holl Ddeunyddiau (fel a ddiffinnir yn Amod 21.5 uchod) a ddatblygwyd a/neu a grewyd gan neu ar ran aelod felly yn perthyn i'r Contractiwr ac yn cynnwys aseiniad o hawliau felly gan aelod felly i'r Contractiwr a fydd yn dod i rym o'r dyddiad y datblygwyd neu y crëwyd hawliau felly.

21.7 Bydd y Contractiwr yn sicrhau ac yn sicrhau bod pob aelod o'r Tîm Arolygu nad yw'n gweithio i'r Contractiwr yn cyflawni gweithredoedd felly ac yn gweithredu pob dogfen felly fel y gallai Estyn ofyn i'w sicrhau neu ymddiried yn gywir yr hawliau a neilltuwyd yn unol ag Amod 21.5 yn Estyn ar ran y Goron am y tymor llawn.

21.8 Ni fydd y Contractiwr (gan gynnwys unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu) ar unrhyw adeg yn cysylltu nac yn ymateb i gysylltiad o unrhyw faes o'r cyfryngau ynghylch y Gwasanaethau ar wahân i ddatgelu'r Contract hwn neu'r Adroddiadau a gyhoeddwyd o dan hyn yn ôl gofynion y Contract. Lle, yn achos Sefydliad (ar wahân i ysgol sefydledig), lle'r Awdurdod Addysg Lleol yw'r Contractiwr, nid yw'r paragraff hwn yn atal y cyfryw Gontractiwr rhag gwneud unrhyw ddatganiad y buasai wedi'i wneud pe na wnaethpwyd y Contract o gwbl.

21.9 Ymgynghorir ag Estyn cyn:

21.9.1 gwneud unrhyw ddatganiad llafar; neu
21.9.2 gyhoeddi unrhyw ddatganiad ysgrifenedig, papur neu hysbysiad i'r wasg; neu
21.9.3 gynnal cynhadledd i'r wasg neu unrhyw fath arall o gynhadledd,

mewn cysylltiad â'r Arolygiad neu unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn ystod y Contract. Anfonir drafft o unrhyw ddatganiad, papur neu hysbysiad i'r wasg arfaethedig at Estyn mewn amser digonol i roi cyfle rhesymol iddo wneud sylwadau arno cyn y dyddiad cyhoeddi a gynigir, a bydd unrhyw gyhoeddiad o'r fath yn amodol ar gael cymeradwyaeth ysgrifenedig Estyn yn gyntaf.

21.10 Ni fydd y Contractiwr (gan gynnwys unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu) ar unrhyw adeg yn ailgynhyrchu na lledaenu unrhyw ddeunydd na gwybodaeth a gafwyd yn ystod y Contract i unrhyw berson neu gorff arall yn y Deyrnas Unedig nac yn unrhyw le arall heb ymgynghori ag Estyn yn gyntaf a heb ganiatâd ysgrifenedig Estyn a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi y rhoddwyd yr holl hawlfreintiau sy'n perthyn i'r Goron yn ei feddiant. Ac ni fydd y Contractiwr (gan gynnwys unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu) yn defnyddio unrhyw ddeunyddiau neu wybodaeth o'r fath gyda'r bwriad o ddatblygu unrhyw ddeunyddiau pellach nac ar gyfer unrhyw bwrpas arall o gwbl heb ymgynghori ag Estyn yn gyntaf a heb ganiatâd ysgrifenedig Estyn a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. At ddibenion yr Amod hwn, mae'r cyfeiriad at unrhyw berson neu gorff arall yn cynnwys y Contractiwr lle nad ydyw'n aelod o'r Tîm Arolygu.

21.11 Mae'r Contractiwr yn gwarantu iddo'i hun ac i'r Tîm Arolygu ac i unrhyw gymorth gweinyddol yn y Sefydliad ac mewn unrhyw le arall i beidio â datgelu na defnyddio unrhyw wybodaeth am y staff neu'r disgyblion yn y Sefydliad nac am dendrau na chontractwyr i'r Sefydliad i unrhyw berson neu gorff arall ar wahân i'r hyn sy'n angenrheidiol o dan Amodau'r Contract hwn neu a bennwyd fel arall gan ddeddfwriaeth. At ddibenion yr Amod hwn, mae'r cyfeiriad at unrhyw berson neu gorff arall yn cynnwys y Contractiwr lle nad ydyw'n aelod o'r Tîm Arolygu.

21.12 Mewn perthynas â'r Data, Estyn fydd Rheolwr y Data a'r Contractiwr fydd Prosesydd y Data. Mae'r Contractiwr yn gwarantu ac yn ymrwymo mewn perthynas â'r Data y bydd:

(a) y Data'n cael ei brosesu yn ôl gofynion y Contract hwn yn unig, neu unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig gan Estyn mewn perthynas â'r cyfryw Ddata fel a gyhoeddir gan Estyn o dro i dro;

(b) bydd y Contractiwr yn cydymffurfio ym mhob agwedd â gofynion Egwyddor Saith Diogelu Data, fel y'i nodir yn Atodlen 1 o'r Ddeddf Diogelu Data, fel pe bai'n Rheolwr y Data; a

(c) bydd y Contractiwr yn hysbysu'r unigolion sy'n destun y Data mai Estyn yw Rheolwr y Data, ac am y dibenion y bydd y Data sy'n ymwneud â nhw yn cael ei brosesu.

21.13 Mae'r Contractiwr yn cydnabod rhwymedigaeth Estyn i gydymffurfio â Chod Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth ("y Cod Gwybodaeth") a'i ymrwymiad i onestrwydd a mynediad cyhoeddus i wybodaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu a chynnal cynllun cyhoeddi. Mae Estyn yn gweithredu dan ragdybiaeth gonestrwydd.

21.14 Mae'r Contractiwr yn cydnabod ymhellach fod Estyn yn destun rhwymedigaethau statudol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn ofynnol i Estyn o 1 Ionawr 2005 ymateb i geisiadau am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

21.15 Bydd y Contractiwr, wrth gyflawni'r Contract, yn cefnogi'n weithredol ymrwymiad Estyn i'r Cod Gwybodaeth a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y gofynnir yn rhesymol gan Estyn.

21.16 Lle mae Estyn yn rheoli cais am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn angenrheidiol ac yn briodol i Estyn ymgynghori â'r Contractiwr yn unol â'r *Cod Ymarfer Ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus Dan Adran 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* a wnaed dan Adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bydd y Contractiwr yn ymateb i Estyn ar unwaith a chyn pen 5 (pump) Diwrnod Gwaith, a bydd yn anfon neu'n trefnu bod unrhyw dystiolaeth arolygu y gofynnir amdani, yn cael ei hanfon am ddim â llaw neu ddosbarthiad dosbarth cyntaf wedi'i gofnodi, yn ei ffurf wreiddiol. Gallai Estyn gadw'r deunydd hwn yn barhaol neu dros dro, ac Estyn fydd yn penderfynu ei ddatgelu mewn ymateb i unrhyw gais ar ddisgresiwn Estyn yn llwyr.

21.17 Pan fydd cais am wybodaeth yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r Contractiwr, bydd y Contractiwr yn cysylltu ag Estyn ar unwaith i Estyn gael penderfynu ar ymateb priodol.

21.18 Bydd y Contractwr yn indemnio Estyn yn erbyn unrhyw golledion neu ddifrod (a fydd er mwyn osgoi amheuaeth yn cynnwys costau cyfreithiol) a all ddod i ran Estyn o ganlyniad i unrhyw achos o dorri darpariaethau'r Amod hwn gan y Contractiwr.

21.19 Bydd darpariaeth Amod 21 yn gymwys yn ystod parhad y Contract hwn ac wedi iddo ddod i ben sut bynnag y bydd hynny'n digwydd.

21.20 Ni fydd y Contractiwr (gan gynnwys unrhyw aelod o'r Tîm Arolygu) yn cyfeirio at PAEM, AEM, Estyn na'r Contract mewn unrhyw hysbyseb heb ganiatâd ysgrifenedig Estyn yn gyntaf.

22 INDEMNIAD AC YSWIRIANT

22.1 Bydd y Contractwr yn indemnio Estyn, y Goron a/neu ei Gweinidogion, ei gweision a'i hasiantiaid yn erbyn pob gweithred, hawliad, gofyniad, cost a thraul (gan gynnwys costau cyfreithiol) a wneir gan neu yn erbyn Estyn, y Goron a/neu ei Gweinidogion, ei gweision neu ei hasiantiaid mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod neu niwed personol (yn cynnwys marwolaeth) sy'n deillio o neu mewn cysylltiad â'r Contract hwn.

22.2 Ni fydd yr indemniad a gynhwysir yn Amod 22.1 uchod yn gymwys i'r graddau y caiff y golled, y difrod neu'r niwed ei achosi gan weithred neu ddiffyg gweithred esgeulus neu fwriadol Estyn, y Goron, ei Gweinidogion, ei gweision neu ei hasiantiaid.

22.3 (a) Trwy gydol y Contract bydd y Contractiwr yn yswirio yn erbyn unrhyw ddifrod, colled neu niwed a all ddigwydd i unrhyw eiddo neu i unrhyw berson yn deillio o neu wrth weithredu'r Contract ac eithrio oherwydd y materion y cyfeirir atynt yn Amod 22.2 uchod.

(b) Bydd yswiriant o'r fath mewn grym gydag yswiriwr ac mewn telerau a gymeradwyir gan Estyn ac am £1 miliwn (miliwn o bunnau) o leiaf am bob hawliad. Bydd y telerau'n cynnwys darpariaeth lle yn achos unrhyw hawliad y byddai gan y Contractiwr hawl i dderbyn indemniad o dan y polisi yn cael ei ddwyn neu ei wneud yn erbyn Estyn, bydd yr yswiriwr yn indemnio Estyn yn erbyn hawliau o'r fath ac unrhyw gostau, taliadau a threuliau mewn perthynas â hynny. Bydd y Contractiwr yn cyflwyno'r polisi neu'r polisïau yswiriant i Estyn pryd bynnag y bydd gofyn iddo wneud hynny ynghyd â'r derbynebau am dalu'r premiymau cyfredol.

23 DAMWAIN NEU ANAF I'R CONTRACTIWR A'I GYFLOGEION

23.1 Ni fydd Estyn yn atebol am neu mewn perthynas ag unrhyw ddigolledíad neu iawndal sy'n daladwy mewn perthynas â neu o ganlyniad i unrhyw ddamwain neu anaf i'r Contractiwr neu unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi gan y Contractiwr neu unrhyw is-gontractiwr ar wahân a heblaw i'r graddau fod damwain neu anaf o'r fath yn deillio o neu wedi ei achosi gan esgeulustod ar ran Estyn, ei gyflogeion, ei asiantiaid neu ei weision (ac eithrio'r Contractiwr) a bydd y Contractiwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio Estyn yn erbyn pob digolledíad ac iawndal o'r fath (ar wahân a heblaw'r dywededig) ac yn erbyn pob hawliad, gofyniad, gweithrediad, cost (gan gynnwys costau cyfreithiol), taliad a thraul o unrhyw fath mewn perthynas â hyn.

23.2 Ar wahân i atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i esgeulustod Estyn, ei gyflogeion, ei weision neu ei asiantiaid (ac eithrio'r Contractiwr), ni fydd atebolrwydd cyfanredol llwyr Estyn mewn perthynas â phob hawliad neu gyfres o hawliadau cysylltiedig sy'n deillio o dan neu mewn cysylltiad â'r Contract (p'un a yw'n deillio o dorri'r Contract, torri dyletswydd statudol, ni fydd camwedd (gan gynnwys esgeulustod) neu fel arall) ("Hawliad") o dan unrhyw amgylchiadau yn mynd y tu hwnt i'r rhan honno o Bris y Contract a delir gan Estyn i'r Contractiwr yn unol â'r Contract ar y dyddiad y cododd Hawliad o'r fath, heb y cyfansymiau cyfanredol a dalwyd neu sy'n daladwy gan Estyn i'r Contractiwr mewn perthynas ag unrhyw Hawliadau blaenorol.

24 TERFYNU

24.1 Bydd y Contractiwr yn hysbysu Estyn yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl dan yr amgylchiad(au) pe bai unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd;

(a) lle mae'r Contractiwr yn unigolyn ac os cyflwynir deiseb ar gyfer methdaliad y Contractiwr neu os gwneir gorchymyn methdaliad troseddol yn erbyn y Contractiwr, neu os gwnaiff unrhyw gyfansoddiad neu drefniant gyda neu er lles credydwyr, neu os gwnaiff unrhyw drawsgludiad neu neilltuadau er lles credydwyr neu os penodir gweinyddwr i reoli ei fusnes; neu

(b) lle nad yw'r Contractiwr yn unigolyn ond yn fusnes neu nifer o bobl gyda'i gilydd mewn unrhyw swyddogaeth, os bydd unrhyw ddigwyddiad yn Amod 24.1 (a) neu (c) yn digwydd mewn perthynas ag unrhyw bartner yn y busnes neu unrhyw un o'r personau hyn neu os cyflwynir deiseb i'r Contractiwr gael ei ddirwyn i ben fel cwmni heb ei gofrestru; neu

(c) lle mae'r Contractiwr yn gwmni, os yw'r cwmni yn pasio penderfyniad i ddirwyn y cwmni i ben neu ei ddiddymu (ac eithrio at ddiben ac wedi'i ddilyn gan uno neu ailadeiladu), neu os bydd y llys yn gwneud gorchymyn gweinyddu neu orchymyn dirwyn i ben, neu os bydd y cwmni yn gwneud cyfansoddiad neu drefniadau gyda'i gredydwyr, neu os penodir derbynnydd gweinyddu, derbynnydd neu reolwr gan gredydwr neu gan y llys, neu os meddiennir unrhyw ran o'i eiddo o dan delerau taliad arnawf; neu

(ch) lle nad yw'r Contractiwr yn gallu bodloni'r gofynion a nodir yn Amod 16.6 uchod a gweithredu'n unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell.

24.2 Os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn Amod 24.1 uchod yn digwydd, neu, os bydd y Contractiwr wedi torri'r Contract hwn, ac (os oes modd gwneud iawn am y tor-amod) os bydd wedi methu ag adfer toriad o'r fath i fodlonrwydd rhesymol Estyn cyn pen 5 (pum) Diwrnod Gwaith y gofynnwyd iddo yn ysgrifenedig gan Estyn i wneud hynny, neu, os yw'r Arolygydd Cofrestredig yn y Tîm Arolygu yn marw neu'n cael ei ddyfarnu'n analluog i reoli ei fusnes o fewn ystyr Rhan VII o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, bydd gan Estyn yr hawl i derfynu'r Contract hwn trwy roi rhybudd i'r Contractiwr gydag effaith ddi-oed. Os digwydd hynny, heb niwed i unrhyw un arall o'i hawliau, gall Estyn ei hun gwblhau'r Gwasanaethau ac unrhyw rwymedigaethau eraill y Contractiwr yn unol â'r Contract neu beri bod trydydd parti yn eu cwblhau, gan ddefnyddio at y diben hwnnw (gan ganiatáu mewn modd teg a phriodol ar gyfer hynny mewn unrhyw daliad a wneir wedi hynny i'r Contractiwr) yr holl ddefnyddiau ac offer yn yr anheddau sy'n eiddo i'r Contractiwr neu ei ystâd hyd nes y bydd y Gwasanaethau wedi cael eu cwblhau yn unol â gofynion y Contract, a bydd ganddo'r hawl i ddidynnu o unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Contractiwr y costau a gafwyd gan Estyn (gan gynnwys costau Estyn ei hun). Os bydd cyfanswm y costau i Estyn yn fwy na'r swm (os oes) sy'n ddyledus i'r Contractiwr, gall Estyn adennill y gwahaniaeth gan y Contractiwr neu ei ystâd.

24.3 Yn ychwanegol at hawliau terfynu Estyn o dan Amod 24.2 uchod, bydd hawl gan Estyn i derfynu'r Contract hwn trwy roi rhybudd ysgrifenedig o ddim llai nag 15 (un deg pump) Diwrnod Gwaith i'r Contractiwr i'r perwyl hwnnw ac os digwydd terfyniad o'r fath bydd yn talu'r holl gostau rhesymol a gafwyd hyd at y dyddiad terfynu.

24.4 Ni fydd terfyniad o dan Amodau 24.2 neu 24.3 uchod yn niweidio nac yn effeithio ar unrhyw hawl gweithredu neu adfer a fydd wedi cronni neu a fydd ar hynny yn cronni i Estyn ac ni fydd yn effeithio ar weithredu parhaus Amod 21 uchod.

24.5 Pe bai gweithredu diwydiannol yn digwydd, neu dân mawr, llifogydd neu ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth Estyn neu'r Contractiwr gan achosi cau'r Sefydliad neu ym marn Estyn os yw amgylchiadau'n codi na ellid bod wedi eu rhagweld ac sydd yn ei farn yn debygol o'i gwneud yn amhosibl cwblhau'r Gwasanaethau'n foddhaol ("Digwyddiad"), gallai Estyn yn ei ddisgresiwn absoliwt naill ai:

(a) derfynu'r Contract; neu

(b) oedi cyflawni rhwymedigaethau'r Contractiwr y mae Digwyddiad o'r fath yn effeithio arno hyd nes y bydd Digwyddiad o'r fath wedi darfod, ar yr amod ar bob adeg os bydd Digwyddiad o'r fath yn parhau am fwy na deufis (2), y gall Estyn ar unrhyw adeg ar ôl hynny ddewis terfynu'r Contract.

Lle bydd Estyn yn penderfynu terfynu'n Contract, os yw'r Contractiwr wedi gweithredu rhywfaint o waith wrth gyflawni'r Gwasanaethau cyfrifir atebolrwydd

mwyaf Estyn trwy gyfeiriad at y swm o £150 (cant a hanner o bunnau) y dydd lle darparwyd y Gwasanaethau yn y Sefydliad ar yr amod nad yw hyn yn fwy na 5% o Bris y Contract.

25 ADENNILL SYMIAU SY'N DDYLEDUS

25.1 Ble bynnag o dan y Contract hwn, mae modd adennill unrhyw swm o arian gan y Contractiwr neu sy'n daladwy ganddo, gellir tynnu'r swm hwnnw o unrhyw swm sydd wedyn yn ddyledus, neu a all ddod yn ddyledus i'r Contractiwr yn ddiweddarach o dan y Contract hwn neu o dan unrhyw Gontract arall gydag Estyn neu gydag unrhyw adran, asiantaeth neu awdurdod y Goron.

26 RHWYMEDÏAU

26.1 Ni fydd methiant neu oedi o ran arfer unrhyw hawl, pŵer neu fraint dan y Contract yn gweithredu fel hepgoriad ohono, ac ni fydd unrhyw achos unigol neu rannol o arfer yr hawl yn atal unrhyw arfer pellach o unrhyw bŵer neu fraint dan y Contract neu fel arall.

26.2 Mae'r Partïon yn cydnabod na fydd iawndal yn rhwymedi digonol o bosibl pe ddigwydd i'r Contract gael ei dorri, ac yn unol â hynny, bydd hawl gan bob un o'r Partïon, (yn ychwanegol at unrhyw rwymedi neu rwymedïau arall y gall fod ganddynt), i geisio rhwymedïau gwaharddiad, perfformiad penodol ac iawn ecwitïol arall am unrhyw fygythiad o dorri'r Contract neu dorri'r Contract yn wirioneddol gan y Parti arall, ac ni fydd angen unrhyw brawf o iawndal arbennig er mwyn gorfodi'r Contract.

27 HYSBYSIADAU

27.1 Bydd unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth a roddir neu a wneir yn unol â'r Contract yn ysgrifenedig a chaiff ei roi drwy anfon y cyfryw drwy bost dosbarth cyntaf wedi'i gofnodi, ffacs neu â llaw, os at Estyn, at:

Swyddog Arwain: Contractau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd CF24 5JW

Ffacs: (029) 2044 6448

neu at unrhyw gyfeiriad arall fel yr hysbysir o dro i dro.

27.2 Bydd hysbysiadau a roddir drwy'r post yn effeithiol o'r cynharaf o'r ddau, sef derbyn yr hysbysiad 2 (dau) Ddiwrnod Gwaith ar ôl postio, oni bai bod Swyddfa'r Post yn ei anfon yn ôl heb ei ddosbarthu. Bydd hysbysiadau â llaw yn effeithiol o'u cyflwyno. Tybir y bydd hysbysiadau dros y ffacs wedi'u derbyn y Diwrnod Gwaith yn dilyn

trosglwyddiad cywir, a bod dalen cadarnhau trosglwyddiad yn dangos na fu camgymeriad trosglwyddo yn dystiolaeth i hynny, a chyhyd bob amser ag y bydd yr hysbysiad yn cael ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf wedi'i gofnodi i'r Parti sy'n derbyn ar ddiwrnod ei drosglwyddiad.

27.3 Gall y naill Barti neu'r llall i'r Contract newid ei gyfeiriad, rhif ffôn, rhif ffacs neu gyswllt enwebedig at ddibenion hysbysu trwy roi hysbysiad ysgrifenedig rhesymol ymlaen llaw i'r Parti arall am y wybodaeth newydd a'r dyddiad y daw'n effeithiol.

28 TORADWYEDD

28.1 Os caiff bod unrhyw delerau, Amod, darpariaeth neu unrhyw ran o'r Contract hwn yn anghyfreithlon, yn annilys neu'n anorfodadwy i unrhyw raddau ni fydd y cyfryw delerau, Amod neu ddarpariaeth yn effeithio ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb neu orfodadwyedd y rhannau sy'n weddill o'r Contract hwn a fydd yn parhau â grym ac effaith lawn.

29 GORFODAETH GAN DRYDYDD PARTI

29.1 Ni fydd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 yn gymwys i'r Contract hwn ac ni fydd unrhyw un o'i delerau yn orfodadwy gan unrhyw drydydd parti.

30 CYFRAITH A RHEOLIADAU

30.1 Rheolir y Contract hwn gan gyfraith Cymru a Lloegr (fel y'i cymhwysir yng Nghymru).

30.2 Mewn perthynas â materion sy'n codi dan Amod 15 uchod, bydd y Partïon yn ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

30.3 Bydd y Contractiwr ym mhob mater sy'n codi wrth gyflawni'r Contract yn cydymffurfio â phob Deddf Seneddol a phob gorchymyn, rheoliad ac is-ddeddf a wneir gydag awdurdod statudol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu gan Awdurdodau lleol neu arall a fydd yn berthnasol i'r Contract.

Slip ateb: i'w anfon yn ôl at –

Alan Bullas
Swyddog Arwain: Contractau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd CF24 5JW

Mae hyn i gadarnhau fy mod wedi derbyn **Fersiwn 10 (Ebril 2008)** o'r Amodau Contract ar gyfer Arolygu Ysgolion yng Nghymru dan Adran 10 o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996. (i'w disodli gan Adran 28 Deddf Addysg 2005). Rwyf wedi darllen a deall y ddogfen, a chytunaf i dderbyn yr Amodau hyn mewn perthynas ag unrhyw Gontract(au) Arolygu a ddyfernir i mi.

Gofynnaf fod unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth a roddir neu a wneir yn unol â'r Contract hwn yn cael ei wneud neu'i roi i'r islofnodedig, oni ddarperir hysbysiad am unrhyw newid i Estyn gan y Contractiwr.

Llofnodwyd: .....

Dyddiad: .....

Enw: .....

Teitl Busnes: .....

Ar gyfer ac ar ran (enw'r sefydliad): .....

Cyfeiriad .....

.....

.....

.....

.....

Cyfeiriad e-bost: .....